# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

RHIF 137

GORFFENNAF/AWST 1987


# Cymry Caerdydd

MAE DAU Gymro Cymraeg ymhlith y pedwar aelod seneddol a fydd yn cynrychioli'r Brifddinas yn ystod oes y Senedd newydd. Ad-enillwyd sedd Gorllewin Caerdydd, a fu'n eiddo i Lafur rhwng 1945 a 1983, gan Rhodri Morgan. Llwyddodd Alun Michael i ddal gafael Llafur ar Dde Caerdydd a Phenarth - sedd a gynrychiolwyd gan Syr James Callaghan ers etholiad 1945.

Roedd y ddwy sedd, wrth gwrs, yn uchel ar restr y Blaid Lafur o seddi lle roedd buddogoliaeth yn debygol. Ond yn y ddwy achos llwyddodd yr ymgeiswyr i wneud hyd yn oed yn well na'r disgwyl.

GORLLEWIN CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Rhodri Morgan Llaf | 20,329 | 45.53% |
| Stefan Terlezki Ceid | 16,284 | 36.47% |
| Geoff Drake SDP | 7,300 | 16.34% |
| Paul Keelan Plaid | 736 | 1.64% |
| Mwyafrif | 4,045 | 9.05% |

DE CAERDYDD A PHENARTH

| | | |
|---|---|---|
| Alun Michael Llaf | 20,956 | 46.73% |
| Gareth Neale Ceid | 16,382 | 36.53% |
| Jenny Randerson Rhydd | 6,900 | 15.38% |
| Sian Edwards Plaid | 599 | 1.33% |
| Mwyafrif | 4,574 | 10.20% |

Ond siom gafodd y trydydd Cymro Cymraeg a fu'n sefyll dros Lafur yng Nghaerdydd. Yn etholaeth Canol Caerdydd, methodd Jon Owen Jones a disodli'r Ceidwadwr Ian Grist a hynny o 1,986 o bleidleisiau'n unig.

Gall Grist, sy'n ymuno a Peter Walker a Wyn Roberts yn y Swyddfa Gymreig ystyried ei hun yn ddyn ffodus iawn. Syrthiodd ei bleidlais o 16,090 i 15,241 tra bwriwyd 25,317 o bleidleisiau dros ymgeiswyr Llafur a'r SDP.

CANOL CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Ian Grist Ceid | 15,241 | 37.08% |
| Jon Owen Jones Llaf | 13,255 | 32.25% |
| Michael Germam Rhydd | 12,062 | 29.35% |
| Sian Caiach Plaid | 535 | 1.30% |
| Mwyafrif | 1,986 | 4.83% |

Y disgwyl oedd y byddai Mike German, oedd yn ymladd yn erbyn Ian Grist am y pedwerydd tro, yn cipio'r sedd i'r Gynghrair gyda chymorth pleidleiswyr Llafur. Ond oherwydd y cynnydd yn gefnogaeth i Lafur ni chafwyd y pleidleisio tactegol a ddisgwyliwyd. Cafwyd hwb i ymgyrch Llafur gan arolwg barn a gyhoeddwyd gan bapur yr Echo a chred nifer o gefnogwyr y Gynghrair i hynny chwarae rhan holl-bwysig yn yr hyn ddigwyddodd.

Methiant hefyd fu ymdrech y Gynghrair i ddisodli'r Ceidwadwr Gwilym Jones yng Ngogledd Caerdydd. Unwaith yn rhagor gwelwyd ymgeisydd y Gynghrair yn syrthio o'r ail i'r drydedd safle wrth i bleidlais llafur gynyddu'n sylweddol. Ond cynyddu hefyd wnaeth pleidlais y Ceidwadwyr, ac mae'n ymddangos bod gan Gwilym Jones yrfa hir o'i flaen yn San Steffan.

GOGLEDD CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| Gwilym Jones Ceid | 11,827 | 26.69% |
| Steve Tarbet Llaf | 11,725 | 26.46% |
| Tony Jeremy SDP | 692 | 1.41% |
| Eluned Bush Plaid | 8,234 | 18.58% |

Crebachu ymhellach fu pleidlais Plaid Cymru trwy'r Brifddinas, a hynny yn nhermau nifer pleidleisiau a chanran o'r bleidlais. Methwyd ag ennill hyd yn oed mil o bleidleisiau ym mhob etholaeth ac roedd y canran ym mhob achos yn llai na 2%.

# Y Bib Bia'r Coleg



AR ORFFENNAF 31 daw'r Coleg Gwyddor Cartref yn Heol Llantrisant, Llandaf yn eiddo i'r BBC. Bu'r safle a fu'n eiddo i Goleg y Brifysgol, Caerdydd ar werth am beth amser, ond o'r diwedd fe werthwyd i'r BBC am dr[illegible] £3 miliwn o bunnoedd.

Amcangyfrir y bydd angen rhwng chwe a naw mis i gwblhau'r gwaith o addasu'r safle. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau bydd yr adrannau hynny sy' nawr wedi'u lleoli yng Ngabalfa yn symud i Landaf. Bydd y safle newydd yn gartref i'r adrannau ffilm, y llyfrgelloedd sain a fideo, nifer o swyddfeydd ac yn bwysicach oll maes parcio newydd. Mae peth dyfalu hefyd ynglyn a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r safle ar gyfer recordio opera sebon newydd - defnyddiodd HTV gampws coleg y Barri ar gyfer y gyfres Coleg rai blynyddoedd yn ôl.

Pan fydd y dasg o symyd popeth i Landaf wedi'i gwblau bydd gan y BBC y dasg o werthu'r safle 12 erw Gabalfa. Ond ni ddisgwylir i hynny bery ormod o drafferth, gan y gallai'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad tai. Byddai hynny'n sicrhau bod y BBC yn cael pris da am y safle.

# YSGOL

Wedi hir ddisgwyl a hir addo, cafwyd ysgol gynradd Gymraeg newydd i Gaerdydd. 'Roedd y Cyngor wedi argymell ers meitin y dylid defnyddio adeilad Ysgol Radnor Road ar gyfer ysgol newydd o'r fath, ond yn wyneb gwrthwynebiad chwyrn rhieni'r plant oedd yn mynychu'r ysgol honno yn barod, penderfynodd y Cyngor i beidio â phenderfynu dim, ond i gyfeirio'r mater i'r Ysgrifennydd Gwladol iddo ef gael ystyried y dadleuon o'r ddwy ochor.

Fe ddaeth hi'n etholiad, heb benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac 'roedd cryn bryder mewn rhai cylchoedd na fyddai penderfyniad am gryn amser wedi'r etholiad yn wyneb y ffaith fod yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Mr. Nicholas Edwards am ymddeol o'i swydd i fwynhau pleserau rheitiach na rheoli Cymru.

Pan gyhoeddwyd mai Mr. Peter Walker fyddai'r Ysgrifennydd Gwladol newydd, ystyrid y byddai ef yn cymryd amser i ddod yn gyfarwydd â bagad ei ofalon, ond daeth siom o'r ochor orau pan gyhoeddodd hwnnw ei fod yn cytuno y dylid cael Ysgol Gymraeg yn Radnor Road, neu Heol Maesyfed fel, yn ddiau, yr adnabyddir y stryd hwnnw o hyn ymlaen.

Mae gwrthwynebiad yn parhau gan rieni plant sy'n mynychu'r ysgol Saesneg sydd yn yr adeilad ar hyn o bryd. Bwriedir y bydd y ddwy ysgol - yr ysgol bresennol a'r ysgol newydd - yn cyd-fodoli ar yr un seit ond mewn adeiladau gwahanol, ac y bydd y plant o'r ddwy ysgol yn rhannu'r un iard chwarae. Bydd angen prifathro amyneddgar a doeth i weinyddu sefyllfa o'r fath. Dyma sefyllfa debyg i'r un a gafwyd pan symudwyd Ysgol Bryntaf o Landaf i adeilad Viriamu Jones yn y Gabalfa tua diwedd y chwedegau.

Nid oes amheuaeth, mae angen Ysgol Gymraeg yn yr ardal. Mae cynnydd dramatig wedi bod yn niferoedd y plant sy'n mynychu ysgolion meithrin y ddinas. Yn yr Ysgol Feithrin a gynhelir yng Nghapel Salem, sydd o fewn tafliad carreg i'r ysgol newydd arfaethedig, er enghraifft, mae tuag ugain o blant am gychwyn y Mis Medi hwn, b'le nad oes ond rhyw bedwar neu bump fel arfer. Mae dau ddosbarth derbyn eisioes yn bodoli ar gyfer plant sydd am fynd i'r Ysgol Gymraeg newydd. Maent wedi bod yn disgwyl y penderfyniad.

Yr unig destun pryder, yn wyneb y cynnydd aruthrol yn nifer y rhieni sy'n galw am addysg gynradd Gymraeg i'w plant yw a fydd yr ysgol newydd yma'n ddigon? Mynegodd un rhiant ei phryder i'r DINESYDD gan ofyn a fyddai rhaid i'w merch fach hi (fydd yn cychwyn yn Ysgol Feithrin Salem ym Mis Medi) fynychu 'dosbarth derbyn' ymhen tair blynedd am na fydd digon o le iddi yn Heol Maesyfed.

# GAIR O'R POST

Annwyl Syr,

Gofid i mi, fel un o ddarllenwyr cyson ein papur bro, yw clywed am dranc arfaethedig Y Faner. Dyma'r papur Cymraeg hynaf a feddwn, wedi goroesi canrif a mwy gydag adnoddau prin, oherwydd ymlyniad diflino ei staff, ei chyfranwyr a'i darllenwyr.

Dirgelwch i mi yw ceisio canfod cysondeb ym mholisi Cyngor Celfyddydau Cymru. Ar un llaw honna'r Cyngor bod ei gyllid yn brin i gefnogi papur sydd eisoes mewn bod a dilynwyr teyrngar iddo, tra, ar y llaw arall, yn fodlon cefnogi menter newydd ddi-staff a gyst lawer iawn mwy i'w gynnal.

Sut yn y byd y dosberthir y papur Sul newydd yma? Methodd Sulyn a chyfyngwyd hwnnw i Ogledd Orllewin Cymru. Ar ddydd Gwener y daw'r Faner i'n tŷ ni, cwbl anerbyniol fyddai derbyn papur Sul ganol wythnos.

Tristwch oedd gwrando ar ymgecru chwerw y cyfarfod yn Aberystwyth ar 'Manylu' (28.6.87). Dyma ni eto yn ymrannu, a'r un tân yn ein boliau i gyd. Trueni na fyddem ni Gymry Cymraeg am unwaith yn ymarfer neges yr hen ddihareb, "Mewn undeb mae nerth".


Yr eiddoch yn ofidus,

(Cafwyd enw a chyfeiriad awdur y llythyr uchod.)

Dylai holl deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf o'r Dinesydd fod yn nwylo Nans Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan erbyn dydd Iau 20 Awst.




Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDI

CROESO I LOWRI

Roedd eu llu cyfeillion yn falch clywed am enedigaeth Lowri, merch fach i Elspeth (Hopwood gynt) ac Ian Gwyn Hughes. Bydd yr aelwyd yn Dane's Court lawer yn llawnach o hyn ymlaen.

CROESO I ATHRAWESAU

Mae'n rhyfedd faint o athrawon ac athrawesau sy'n gadael colegau ac yn dechrau ar eu gyrfaoedd newydd yn y brifddinas o flwyddyn i flwyddyn. Mae tair wedi gorffen yng Nghyncoed ac yn edrych ymlaen at weithio gyda phlant y ddinas. Bydd Miss Helen Jones o'r Garnant yn cychwyn ym Melin Gruffydd a bydd Miss Alice Lewis o Landegfan ym Môn yn cychwyn yn Ysgol Sant Baruc, y Barri. O Bont-y-clun y daw Janet Edwards ac mae hi'n dechrau yng Nghoed-y-gof. Mae Dafydd Thomas yn dod yr holl ffordd o'r Gogledd i weithio ym Mro Eirwg.

TEITHIO'N BELL

Ar ôl treulio blwyddyn yn unig yn Ysgol Melin Gruffydd, mae Miss Olwen Davies, gynt o Fôn, wedi penderfynu cymryd gwyliau hir a mynd i weld y byd, gan ddechrau yn y Dwyrain Pell. Siwrne hapus iddi.

GLOYWI IAITH

Mae nifer o bobl wedi bod yn sôn am ymuno â dosbarth o ryw fath ar loywi iaith ac ysgrifennu creadigol. Yn y gorffennol, dyw pobl y ddinas ddim wedi bod mor badod â phobl yr ardaloedd o gwmpas i fynychu dosbarthiadau nos ac ati ond pe bai digon yn dangos diddordeb mewn dosbarth o'r fath, gellid cychwyn un. Os oes diddordeb gennych chi, cysylltwch yn y lle cyntaf â Mr W J Jones (Caerdydd 756282).

CROESO I'R BRIFDDINAS

Yn gynnar ym mis Mai, yn Llanafan, Dyfed, priodwyd Yvette Jones, Trawsgoed, a Ken Davies, Llanddewi-brefi.

Ond beth yw'r cysylltiad â Chaerdydd?


Gwaith. Ac mae'r ddau wedi cartrefu yn ein plith erbyn hyn ac yn byw yng Nghwrt Sant Pedr, y Rhath. Estynnwn groeso cynnes iddynt o dawelwch y wlad i fwrlwm y ddinas.

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU

Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530



Genedigaeth - Llongyfarchiadau i Mali a John Rowlands ar enedigaeth merch fach - Gwenno Mai - chwaer fach i Elin.

Da gennym glywed bod Enir Williams Penmon, Heol Don yn gwella ac yn atgyfnerthu ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae'n siwr bod Llinos Owain a Iestyn wedi bod yn hen dendio ar Mam heb sôn am Arfon yn englyna yn ôl digwyddiadau'r dydd.

**ARWEINYDD/ARWEINYDDES I GYLCH MEITHRIN yn LLYSWYRNY ger Y Bontfaen o Fedi 1987. Ceisiadau i fewn erbyn Gorffennaf 18fed. Dau fore yn unig i gychwyn. Ffoniwch Caerdydd 891353 neu Wick 683 am fanylion.**

Llongyfarchiadau calonog i Helen Brown ar ei dyweddiad a Christopheŋ Jennings. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ann Beynon Parry a Sara Beynon ar eu profedigaeth yn ddiweddar o golli'u tâd - Talfryn Jones, a hynny'n frawychus o sydyn. Mae ein meddyliau efo'r teulu i gyd yn Nyffryn Nantlle.

Dymuna'r 'Dinesydd' gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.

Nodyn o bwyllgor llên Eisteddfod Casnewydd:

**PRIODAS**

Criw o hen ffrindiau - dyna sut mae disgrifio cyfarfodydd y Pwyllgor Llên sy'n cael eu cynnal yng nghartref Mr. a Mrs. Gwilym Griffith. Mae'r Pwyllgor wedi cael achlysur i ddathlu, sef priodas ei Ysgrifenyddes, Siân Rhiannon â'r cerddor Euros Rhys Evans. Cyflwynwyd anrheg o ddau grochan (casserole) i Siân gan y Cadeirydd ar ran aelodau'r is-bwyllgor a gofynwyd i Arfon Williams o Gaerdydd gyfansoddi englyn i gofio'r amgylchiad. Rhoddodd Arfon ei stamp arbennig ei hun ar y mesur ac fel y gwelwch o'i ddarllen, cafodd hwyl arni fel arfer. Rydym yn siwr y bydd Sian ac Euros yn trysori'r cyflwyniad cryno hwn. Dymuniadau da iddynt yn eu cartref newydd yng Ngwenfo.

Os ych, Euros Rhys a Sian
Rhianoon
Am rannu'r un pentan,
Rhown, gyd-rhyngoch, ddau
grochan;
Llanwch hwynt a llen a chân.

T.Arfon Williams

## Dyfodol y Sherman

Gallai rhai pobl gredu bod Theatr y Sherman wedi dioddef mwy na neb oherwydd y trafferthion ariannol sy`n wynebu Coleg Caerdydd.

Ond mae gobeithion ar hyn o bryd ei bod wedi troi`r gornel a bod goleuni ar ei gorwel, a hynny, mae`n debyg oherwydd arian y Swyddfa Gymreig.

Mae arian honno wedi prynu`r theatr oddi wrth y coleg i`w rhoi i Gyngor y Celfyddydau i`w rhentu, fwy neu lai am ddim, i`r Bwrdd Cyfarwyddwyr sy`n mynd i redeg y theatr o hyn ymlaen.

Ond mae eto lawer o ffordd i fynd. A rhaid dod o hyd i lawer o arian i weinyddu`r lle.

Mae`r Swyddfa Gymreig yn barod i roi punt am bunt i`r theatr am bopeth y gall ei gasglu, i fyny at £60,000 ond dyw`r arian y mae`r theatr wedi`i gasglu`n barod, tua £110,000 ddim yn cyfrif.

Pan aeth y rhifyn hwn i`r wasg, roedd y theatr wedi bod wrthi ers bythefnos yn casglu ac roedd wedi llwyddo i gael £5000 yn yr amser hwnnw, ac os nad yw`r arian yn llifo i mewn, gellir dweud bod ei ffrwd yn gyson, ac mae`n debyg y bydd pob un ohonom yn cael ei dynnu i mewn i roi rywsut neu`i gilydd.

Ar y gweill yn barod mae cerdded a slimio nawdd, arwerthiannau cistiau ceir ac ati. Daeth un o`r ymdrechion gorau hyd yma oddi wrth 14 o blant Ysgol Caldicott a gerddodd o`u hysgol i`r theatr a chael £1000 mewn nawdd am eu trafferth.

Os ydych wedi bod yn y Sherman yn ddiweddar, byddwch wedi cael cais i gyfrannu tuag at y gronfa ac mae £1500 wedi dod hyd yn hyn o`r gronfa honno.
Mae gobaith hefyd y bydd enwogion byd y theatr yn rhoi rhywbeth i`w werthu mewn arwerthiant. Mae hon wedi bod yn ffordd hynod effeithiol o godi arian yn y gorffennol.

Gofynnodd y Dinesydd i un o swyddogion y theatr a oedd unrhyw gynhyrchiad Cymraeg ar y gweill, ond does dim i`w ddisgwyl yno yn Awst a Medi ond mae`n debyg nad ar y theatr y mae`r bai am hyn. Does ond gobeithio y daw rhai o gynhyrchion Porthmadog yno cyn y Nadolig.

Ond gall yr holl weithwyr edrych ymlaen yn lled ffyddiog i`r dyfodol. Mae`r bwrdd newydd wedi rhoi contract newydd i bob un - a sicrwydd gwaith.

A chan fod cwmniau drama Cymraeg wedi bod yn protestio mor uchel eu cloch â neb yn erbyn y bwriad i gau`r theatr, does ond gobeithio y bydd cynyrchiadau Cymraeg yn amlwg o dan y drefn newydd.

Beth bynnag a ddywedir am y theatr, mae`n amhosibl meddwl am le gwell yn y ddinas ar gyfer perfformio dramâu Cymraeg.

## *Y Byd ar ei Bedwar?*

Cyhoeddiad pwysig i bobl y cyfryngau ac i wylwyr Cymraeg oedd datganiad S4C ar ddechrau'r mis am eu trefniant newydd i brynu rhaglenni ar ddechrau 1990.

O hynny ymlaen ni fydd y sianel yn rhoi gwarant cytundeb i neb, gan gynnwys HTV, a bydd rhaid i gwmniau gystadlu bob tro am gomisiwn gan y Sianel. Yn ol y datganiad mae Awdurdod S4C yn derbyn y bydd angen ar ambell fath o raglen i gael sicrwydd dros dair blynedd er mwyn sicrhau yr amodau priodol i greu cyflenwad rheolaidd o wythnos i wythnos ac fe benderfynir ar y rhaglenni hynny a'r cwmniau i'w cynhyrchu trwy dender cystadleuol. Mae rhywun yn dychmygu fod pethau fel Materion Cyfoes, opera sebon a rhaglenni plant yn y categori yma.

I ddinesydd sy'n wyliwr gweddol gyson o S4C, ni allaf weld dim ond daioni yn deillio o'r penderfyniad. Ar ddiwedd y dydd, yr hyn sy'n ymddangos ar y sgrin sy'n bwysig ac os oes gan HTV ddigon o hyder yn eu cynnyrch does dim angen iddynt boeni am eu presenoldeb ar y sianel. Mae'r cynhyrchwyr annibynnol wedi hen ennill eu plwyf erbyn hyn ac wrth weld ambell i raglen o'u heiddo mae gwyliwr cyffredin yn gorfod gofyn pam fod rhaglenni HTV yn costio gymaint. A beth bynnag, mae'r holl ryfela llwythol yma mor nodweddiadol o'r Cymry drwy hanes. Pan fo cyfle i uno o dan un faner, mae'n rhaid i'r BBC a HTV osod eu baner fach eu hunain o flaen pob rhaglen i brofi eu grym. Gobeithio y bydd gan S4C ddigon o ddewrder i sicrhau fod hynny'n dardof yn 1990 hefyd.

Roedd yn braf gweld Huw Davies yn ymateb mor gadarnhaol i'r sialens newydd. Wedi'r cyfan, mae ganddo ef a'i weithwyr le i fod yn falch o'r Byd ar Bedwar, o Dinas ac o ambell i raglen ysgafn. Ond mae'r sibrydion dros beint mae rhywun yn ei glywed o bryd i'w gilydd yn rhoi'r argraff fod y cwmni



wedi gwyllio'n gacwn am nad oedden nhw'n disgwyl y fath beth Petawn i'n gyfranddalwr o'r cwmni mi fyddwn yn poeni'n arw am allu cyfarwyddwyr y cwmni i ddehongli'r busnes y maent ynddo. Y cyfan wnes i oedd darllen y papur dyddiol a gwylio ambell i raglen deledu ac mi wyddwn i beth oedd yn digwydd ar ol adroddiad Peacock mewn cwmniau eraill. Sut yn y byd y methodd cyfarwyddwyr y cwmni a gweld yr un peth a fi, wn i ddim. Falle mai'r Sun a'r Dinesydd yw'r unig bethau mae ganddyn nhw amser i'w darllen am eu bod yn rhy brysur yn cyfrif y pres yn llifo i'r coffrau.

Mi fydd straeon diddiwedd nawr am pwy sy'n gadael HTV i fynd yn annibynnol, mae'n siwr, ond gobeithio na fydd pobol freintiedig y cyfryngau yn anghofio mai eu dyletswydd cyntaf yw ei gwasanaeth i ni'r gwylwyr a'r iaith Gymraeg. Mae'r penderfyniad wedi ei wneud ac un peth sy'n ymddangos yn blaen i mi yw na fydd yr un ohonynt allan o waith ta pwy fydd yn eu cyflogi. Mae'n biti mewn ffordd nad yw S4C yn prynu rhaglenni o'r BBC hefyd, achos fod ei chyfraniad hi i'r sianel wedi mynd yn denau iawn erbyn hyn. Rwy'n hoff iawn o snwcer a 'Fo a Fe' ond mae un i'w gael ar sianeli eraill a'r llall wedi ei wneud dros ddeng mlynedd yn ol. Falle dylai'r llywodraeth roi arian y BBC i S4C i weld os bydd yn gallu rhoi rhaglenni newydd inni. Ond ar y cyfan rwy'n meddwl y bydd hi'n weddol ar ol 1990.



## Ar Gael:

## Gwaith Diddorol

Ar hyn o bryd mae'r Dr. Juliette M. Wood a minnau yn gweithio ar gynllun i fynegeio storiau gwerin Cymru yn ôl teipiau a motifau cydwladol. Y mae'r gwaith yn seiliedig, yn bennaf, ar oddeutu 18,000 o storiau a gofnodwyd ar dapiau Amgueddfa Werin Cymru yn ystod 1965-86. Y bwriad, maes o law, yw cyhoeddi'r mynegai yn un gyfrol.

Yr ydym yn chwilio am bersonau a fyddai'n fodlon cynorthwyo'n wirfoddol i baratoi'r mynegai cynhwysfawr hwn. Gwerthfawrogir bob cymorth y gellir ei gynnig, hyd yn oed petai ond am ychydig fisoedd neu ambell ddiwrnod yr wythnos. Er na allwn gynnig tâl, byddem yn falch o gael cydnabod bob cymorth yn y gyfrol.

Ym mis Medi y mae posibilrwydd hefyd y bydd yr Amgueddfa Werin yn gweinyddu un o gynlluniau Gweithlu'r Gymuned (C.T.F.), 'Mynegeio Llên Gwerin' o dan nawdd Comisiwn Gwasanaethau'r Llywodraeth (M.S.C.)

Os ydych yn ddi-waith ar hyn o bryd ac yn ymddiddori yn un o'r ddau gynllun uchod, neu'r ddau, anfonwch ataf ar unwaith i'r cyfeiriad isod, neu fy ffonio.

Mawr ddiolch.

ROBIN GWYNDAF,
Adran Bywyd Diwylliannol,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd.
CF5 6XB.

Ffôn: 0222 569441

Cartref: 0222 566249

## Colofn Shân Emlyn



Wel wir, newydd orffen dosbarthu rhifyn Mehefin yr yda ni, ac eisoes mae'n bryd hel stwff y rhifyn nesa at'i gilydd. Ddoe roeddwn yn giami iawn ac yn fy ngwely drwy'r dydd, yn chwys doman dail ac yn meddwl bod y byd ar ben. Mae'n dda mai ar fy mhen fy hun yr own i yn sgwrsio â mi'n hun - rhywbeth tebyg i hyn: "Fedrai ddim dod i ben, sut edrychai ar ôl y Gwladfawyr os byddai'n sâl, mae llanast Elin yma o hyd, mae'r ardd yn flêr, mae gen i gant a mil o betha' i'w gwneud (wel, rhyw ddeg ella!) a does gen i ddim nerth nac egni i wneud dim." Yn y gwely y bum i a'r dillad dros fy mhen.

Ond bore heddiw dyma ddeffro'n teimlo'n llawer gwell ac yn llawn brwdfrydedd i gyflawni popeth hyd orau fy ngallu. Pethau rhyfedd yda ni ynte, petawn i'n gwybod ddoe y buaswn yn well heddiw, mi fuaswn wedi ymroi i fwynhau'r gorffwys a'r segurdod. Ond tydy rhywun byth yn gwybod yn nag ydy!

Bum efo criw hwyliog dros ginio heddiw a chael blas ar bob stori etholiadol ac anetholiadol ac erbyn cyrraedd adre roeddwn wedi sbriwsio'n arw. Mae'n rhaid bod rhywun neu rywbeth o'm plaid heddiw, wrth gyrraedd y tŷ be welwn i ond dyn cwbwl ddiarth i mi, yn chwynu, yn palu ac yn planu planhigion a brynais gan Mallt a Don Anderson fu mewn bocsys ers wythnosau. "Pwy yda chi?" medda fi, "Alec" medda fo. "Gobeithio mod i yn y tŷ iawn, fe ddwedodd eich ffrind eich bod angen help ac am i mi ddod i'r tŷ efo bocseidiau o blanhgion wrth y drws cefn." Mae'n siwr nad oes na lawer o bobl yn gadael bocseidiau o blanhiqion wrth'i drws cefn, felly dyma ei sicrhau mai dyma'r feri lle iddo. Eisoes mae'r ardd wedi gweddnewid.

Bendith arall ddaeth yn sgil bod yn giami oedd imi golli tri phwys mewn diwrnod, ond mae 'na lawer mwy i'w golli eto. Tydy hi'n biti bod yn rhaid i gynifer ohona ni frwydro'n barhaus efo'r glorian? Mae'n debyg y byddwn yn fwy llwyddianus petawn yn troi ati i balu'r ardd fy hun. Ond dyna ni eto, pan fo rhywun yn llwgu'i hun - does dim digon o egni yn nag oes? Peth arall fyddai ddim yn'i hoffi o fynd i'r ardd, ydy rhyw bobol wrth basio'r tŷ yn fy nghyfarfod a chael sgwrs ddi-ddim a tharfu arnai, yn groes i Owen sydd wrth ei fodd yn cael esgus i orffwys ar ei rwyfau - wel, na ar'i raw.

Erbyn y daw hyn o lith i'r golwg mi fyddwn i gyd yn gwybod hynt a helynt yr etholiad. Sut aiff hi fory tybed? Dim ond un peth sy'n sicr, mi fydd rhai yn siomedig ac eraill wedi'i plesio, ac mi fyddwn yn gwybod faint o goel i'w roi ar y polau piniwn bondigrybwyll. Mi roedd etholiad yn llawer mwy o hwyl ers talwm - ac nid etholiad gaed bryd hynny ond Lecsiwn. Cofiaf aml i gyfarfod cynhyrfus a chythryblus yn yr hen Down Hôl ym Mhwllheli. Cofio rhyw ymgeisydd, o liw nad sy'n agos at 'y nghalon i, yn brolio mewn Cymraeg tila drosodd a throsodd "Fi wedi magu ar llaeth puwch" - a rhywun o'r dorf yn gweiddi "Wel, dos adra at dy fam ta - y llo diawl!" Cofiaf ffug etholiad yn yr ysgol a finna'n sefyll dros y Blaid - Dada - y creadur - nad oedd wedi gweld y golau bryd hynny - ond â'i deyrngarwch i'w ferch yn fwy nag i unrhyw blaid - fe bustachodd i wneud posteri imi i'w gosod hyd furiau'r ysgol efo'r slogan "Er mwyn Gwlad y Gân rhowch fôt i Shan!" Rhyw rwdlan fel 'na ddaeth pnawn 'ma.

## Ymwelwyr o'r Wladfa



Y criw o'r Wladfa ac un o Goed y Pry yn cyfarfod ag Arglwydd Faer Caerdydd.

Bu criw o'r Wladfa ar ymweliad â Chaerdydd yn ddiweddar, ac roedd Cadeirydd Y Dinesydd ar ben ei digon. Rhyw gymysglyd oedd ymateb y Gwladfawyr ar eu noson gyntaf yma - "SIAN wedi anghofio rhoi cyfnasa ar y gwely - heb baratoi'r gwely'n iawn! Bu trafod mawr cyn mynd i gysgu - ond yn y diwedd penderfynu cysgu yn y "pethau rhyfedd" oedd ar y gwely. Y bore canlynol cyfarfu'r Gwladfawyr â'i gilydd a chanfod iddynt i gyd gael profiad tebyg. Dyna'r tro cyntaf iddynt weld Duvet ar y gwely.

Stori glên arall - teithio' ar hyd Richmodd Road a chlywed Homer yn dweud wrth ei wraig Monw - "Wel dyna iti enw diddorol ar siop "Be 'di Bwys" - y siop oedd Beddy Buys!

## Cerddorfa Symffoni

Nid pob dinas sy'n ddigon ffodus i gael yn ei meddiant gerddorfa symffonig lawn yn ogystal â neuadd deilwng at ei chyngherddau. Bellach, dyna'n sefyllfa ffodus ni, ddinasyddion Caerdydd. Mae cael Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC a Neuadd Dewi Sant wedi rhoi i'r brifddinas amlygrwydd ac enwogrwydd newydd nid yn ein plith ni'n unig ond ymhlith caredigion cerdd o bob man.

Eleni fe gymerwyd cam pellach yn natblygiad cynyddol y gerddorfa wrth iddi gael ati ychwanegiad o offerynwyr a'i chodi'n gerddorfa symffonig lawn. Cael ei chynnal gan bartneriaeth mae'r gerddorfa gyda'r BBC, wrth reswm, yn cario rhan helaeth o'r baich. At hyn mae cefnogaeth sylweddol yn dod o gyfeiriad Cyngor Celfyddydau Cymru ac, yn ddiweddar, fe ddaeth S4C yn bartner ychwanegol gyda'i chyfraniad hithau. Eleni hefyd fe benodwyd Prif Arweinydd newydd i'r gerddorfa sef Tadaaki Otaka sy'n arweinydd ar Gerddorfa Symffoni Tokyo ac yn gerddor llawn addewid. Tasg fawr gyntaf Otaka oedd arwain y gerddorfa ar ei thaith hanesyddol drwy'r Almaen Ddwyreiniol.

Wedi bedydd tân cyhoeddus cyntaf yr arweinydd newydd a'r gerddorfa yn Neuadd Dewi Sant ar Fai 23 dyma godi pac a draw i Leipzig, man cychwyn y daith. O hyn ymlaen aeth y perfformiadau niferus o nerth i nerth - croeso brwd ymhob man - Leipzig, Berlin, Dresden, Neubrandengurg, Zwicjau a Weimar. Bu galw cyson am ddarnau ychwanegol gan y gerddorfa a chan yr unawdydd piano Peter Donohoe. Doedd dim pall ar wrês a gwerthfawrogiad y cynulleidfaoedd cerddorol ddeallus sydd mor nodweddiadol o Weriniaeth Ddemocratig yr Almaen.

Peth arall nodweddiadol iawn o'r wlad hon yw'r parch a roir i gerddorion. Profodd Alun Hoddinott yn helaeth o'r parch hwn wrth iddo gael ei gydnabod mor aml ac mor gynnes gan y gwrandawyr. Cafodd ei ddarn 'Lanternes des Morts' (Llusernau'r Meirw) ei berfformio mewn sawl cyngerdd a chael cymeradwyaeth wresog dros ben. Yn wir, yn Leipzig fe gafodd ei holi'n gyhoeddus cyn y ddwy gyngerdd yn y Gewandhaus am ei gyfansoddiadau ac am y darn a oedd i'w glywed y nosweithiau hynny.

Yn Dresden cafodd y gerddorfa ei hanrhydeddu gan Gerddorfa Ffilharmonig Dresden a hynny ar waetha'r difa ofnadwy a ddigwyddodd yno yn 1945, bythefnos cyn diwedd y rhyfel. Codwyd pont gerddorol yn 1980 pan chwaraeodd y gerddorfa mewn cydgynhyrchiad o 'War Requiem', Britten yn Egwlys Gadeiriol Dresden. Oddi ar y digwyddiad arwyddocaol hwnnw bu tramwyo ar hyd pont cyfeillgarwch.

Roedd y daith wrth fodd pawb ac fe fu, o ran y gerddorfa, yn llwyddiant digamsyniol sy'n ei gosod ar risiau uchaf y byd cerddfaol. Gallwn i gyd ymfalchio yn ei bodolaeth ac yn ei phosibiliadau at y dyfodol.

Roedd y llawenydd hwn yn amlwg ar wyneb Owen Edwards wrth iddo weld Elin yn ei llifio hi yng nghorff y llinynnau yn y Schauspielhaus ym Merlin. Roedd Gareth Price, Rheolwr BBC Cymru, yn dyst yn yr un neuadd i broffesiynolrwydd ei gerddorfa ac i'r môr o gymeradwyaeth a ddilynodd y perfformiad o 4edd Symffoni Mahler. Un arall a gafodd wefr arbennig yno oedd Geraint Stanley Jones a weithiodd gymaint ar y bont er mwyn cyrraedd Dresden yn 1980, ac sy'n dal, yn ei swydd gyfrifol yn Llundain, i weithio yr un mor ddyfal dros fuddiannu'r gerddorfa. Un arall o gynreolwyr BBC Cymru fyddai wedi bod yn wên foddhaus o glust i glust fyddai'r diweddar John Rowley. Yn ei gyfnod ef fel rheolwr aeth hi'n nos bron ar fodolaeth y gerddorfa oherwydd toriadau, ond, drwy ei ddycnwch a'i argyhoeddiad, arbedwyd y sefyllfa ac oddi ar y dyddiau tywyll hynny, mynd o nerth i nerth fu hanes y gerddorfa. Gobeithio mai felly y bydd hi hefyd.

Wynne Lloyd.

---

## SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Dylai hwn fod yn fis hapus iawn i chi, yn llawn o fwynhad a chymdeithasu. Mae'n bosib yr ewch ar eich gwyliau y mis hwn. Mae yn gyfnod creadigol iawn hefyd a mi ddylai fod gennych beth wmbredd o ynni i ymdopi a'r holl fwynhad sydd o'ch blaen.

TAURUS: Os ydych wedi bod yn cweryla gyda'ch cymar yn ddiweddar, dyma'r amser i gymodi a mwynhau cwmni'ch gilydd unwaith yn rhagor. Efallai cewch newydd am briodas fydd yn eich synnu. Bydd cyfaill yn eich synnu hefyd. Dylai hwn fod yn fis cymdeithasol iawn.

GEMINI: Da chi peidiwch a chymryd siawns gyda'ch arian y mis hwn yn enwedig cyn y 15fed, os ydych am fuddsoddi'ch ffortiwn gwnewch yn sicr fod y buddsoddiad yn un saff, a pheidiwch gamblo ar unrhyw gyfri cyn y dyddiad hwnnw. Fe allai'r mis fod yn un rhamantus i chi.

CANCER: Mae hi'n hen bryd i chi gynllunio ar gyfer y dyfodol. Peidiwch dibynnu ar ffawd a siawns, cymrwch chi'r awenau a phenderfynu i ba gyfeiriad yr hoffech fynd nesa, ac yna dilynwch y trywydd gydag arddeliad. Bydd angen encilio arnoch y mis hwn.

LEO: Mae llawer o newidiadau ar y gorwel - peidiwch da chi a'u gwrthsefyll, ewch gyda'r lli, neu chi fydd yn dioddef yn y pen draw. Byddwch yn barod am dipyn o gyffro dan y dyfroedd, yn enwedig yn y cartref. Mis cymdeithasol.

VIRGO: Ydych chi'n dilyn y trywydd iawn yn eich bywyd? Ydych chi'n hapus yn eich gwaith - a'ch cartref? Os taw 'na' yw'r ateb dyma'r amser i newid pethau, gwnewch yn siwr mai chi sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd i chi a neb arall. Wedi'r cyfan, eich bywyd chi yw e.

LIBRA: Mae hwn yn gyfnod ardderchog i hyrwyddo'ch gyrfa, rydych yn llawn uchelgais a brwdfrydedd a bydd pobl mewn awdurdod yn barod i ystyried eich cais am ddyrchafiad. Mae hwn yn gyfnod rhamantus iawn ichi hefyd, efallai cewch gariad sy'n hyn na chi.

SCORPIO: Fe allai eich holl ddymuniadau gael eu gwireddu'r mis hwn os rydych chi'n barod i weithio yn galed i'w cyrraedd. Ddaw dim i'ch col wrth eistedd a disgwyl, mae yna ormod o anhawsterau i'w goresgyn cyn cyrraedd y nod. Gofalwch beidio bod yn rhy ymosodol a dychryn pobl.

SAGITTARIUS: Mae teithio'n gryf yn eich siart y mis hwn, os am fynd ar wyliau i wledydd tramor - mwynhewch. Mae'n bosib y cewch ramant annisgwyl gyda rhywun o wlad dramor. Cofiwch gadw'ch traed yn soled ar y llawr rhag ofn yn cewch eich brifo. Mae 'na beryg y byddwch yn gorwario'r haf 'ma.

CAPRICORN: Mae hi'n bryd cymryd stoc o'ch bywyd a newid yr hyn sydd bellach ddim yn eich gwneud yn hapus. Cofiwch wrth i un drws gau, bydd un arall yn agor. Peidiwch a bod ofn newid eich bywyd er gwell. Byddwch yn onest a chi'ch hun a fe syrthith y darnau i gyd i'w lle.

AQUARIUS: Mis fydd hwn i gydweithio ag eraill. Nid dyma'r amser i wneud rhywbeth ar eich liwt eich hun. Efallai bydd rhai yn anghydweld a'ch syniadau eithafol, ceisiwch gyfaddawdu am unwaith pa mor anodd bynnag fydd hynny. Cewch newyddion am briodas.

PISCES: Dylai'r rhan fwyaf o'r mis fod yn un hapus, hwyliog a chymdeithasol. Mwynhewch, ond gofalwch peidio a brifo rhywun trwy siarad ar eich cyfer. Nid dyma'r amser i orwario chwaith, mae'n bosib y cewch filiau annisgwyl - byddwch yn barod amdanynt. Cymrwch ofal o'ch iechyd ddiwedd y mis.

# Arddangosfeydd Yr Hâf

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS**

**CAMPWEITHIAU O AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

Yr arddangosfa o'r gweithiau ddaeth yn ol o Japam, yn cynnwys gwaith artistiaid fel, Claude, Canaletto, Richard Wilson, Daumier, Millet, Manet, Renoir, Monet, Ceyanne, Van Gogh a Renoir.

**TY TURNER, HEOL PLYMOUTH, PENARTH**

**PEINTIADAU CYFOES**

Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa yn cynnwys gweithiau gan Augustus John, Gwen John, Ceri Richards, Cedric Morris, Kyffin Williams, Josef Herman, Stanley Spencer a Harold Gilman.

**AMGUEDDFA DIWYDIANT A MOR, HEOL BUTE**

**Y CYMOEDD AR EU NEWYDD WEDD - 1 Gorffennaf - 31 Awst**

Gwaith ffotograffydd Pal Reas yn delio a'r newidiadau diweddar a fu yn hanes economaidd Cymru; golwg ar y newidiadau a'r effaith a ddaw yn eu sgil.

**CHAPTER, HEOL Y FARCHNAD, CANTON**
**YR ORIEL**

**SHARON KILVAND 'TROI PLESER YN SALWCH'**
**11 Gorffennaf-9 Awst**

Celfyddyd yr artist yn ymchwilio bywyd swbwrbia, y cartref ac arferion a phethau bob dydd.

**YR AIL FAN**
**'UN DAITH - DAU DDATGANIAD**
**11 Gorffennaf - 9 Awst**

Victoria Evans a Kabir Hussain, Cerflunwyr o Gaerdydd yn arddangos gweithiau yn dilyn taith o dri mis yn Peru.

**YR ORIEL**
**15 Awst - 13 Medi**

**'100 MLYNEDD O FANERI'R MERCHED**

Arddangosfa yn olrhain hanes baneri sefydliadau merched, baneri art nonveau gwragedd y swffraget, baneri dirwest, a'r gildiau cydweithredol hyd at rhai diweddara'r mudiad heddwch ac achos y glowyr .

**ORIEL, HEOL SIARL**

**YSBRYD LLE - ALISTAIR CRAWFORD - 20 Mehefin - 18 Gorffennaf**

Gwaith darlunio a pheintio, ffotograffiau a phrintiadau diweddar 1975/85.

**T. HARRI JONES. BYWYD A GWAITH Y BARDD**
**- 25 Gorffennaf - 22 Awst**

Mae'r arddangosfa hon yn dathlu bywyd ac amserau Harri gan geisio esbonio tarddiad y gwrthdaro emosiynau sydd wrth wraidd ei farddoniaeth - y prif themau, sef yr hunan mewn alltud, ansicrwydd crefyddol, cariad rhywiol, ei deulu a'i blentyndod yn y Gymru wledig, chwerw-felys T. Harri Jones 1921 - 1965.



T.Harri Jones gan Glanville M.A., A.R.B.S., T.T.P.S.

---

**T. HARRI JONES, 1921-1965 (Arddangosfa Oriel mis Gorffennaf)**

Ganed Thomas Henry Jones yng Nghwm Crogan, tyddyn unig ger pen Cwm Hirnant rhwng Llanafan Fawr a'r Bontnewydd ar Wy, ar y 21ain o Ragfyr, 1921.

Yr oedd Henry Teideman, tadcu ar ochr ei fam yn fab i heliwr morfilod a symudodd o Lundain i Dde Cymru. Bu'n gwerthu glo yn y Barri yn ystod y dirwasgiad ac yn aelod brwd o Fyddin yr Iachadwriaeth. Ruth oedd enw mam Harri ac yn un o bymtheg o blant a aned i Henry Teidman a Rhoda ei wraig. Rhoda oedd yr unig un a fedrai'r Gymraeg.

Ar ochor ei dad, tarddodd y teulu o Ogledd Sir Frycheiniog, ardal ffermydd gwasgaredig a thir anghyfannedd. Cymry Cymraeg yn bennaf oedd teulu Thomas a Mary Jones, yn byw ar dyddyn Cwm Crogan yn cynnwys erwau o dir ar Ystad Llysdinam. Gweithiai Thomas fel bugail a chasglwr trethi. Yn Annibynnwr pybur ac yn wr a gafodd addysg, dysgodd ei blant ei hunan a phlant eraill Llanafan i ddarllen, ysgrifennu a rhifo. Ganed tad Harri, Llewelyn yn un o ddeg o blant. Wedi dychwelyd yn ol o Ffrainc a Phalesteina yn y Rhyfel Mawr, chwiliodd am waith yn Ne Cymru a chyfarfod a Ruth Teideman yn y Porth ym 1920. Wedi priodi aethant yn ol i Gwm Crogan ac yno ganed Harri eu plentyn cyntaf.

Glynai'r teulu at y Sul traddodiadol Cymreig gan fynychu capel moel, diaddurn Pisgah. Aeth Harri i Ysgol Eglwys Llanafan lle roedd cosb am siarad Cymraeg. Ar un o ymweliadau blynyddol y capel i Aberystwyth y dechreuodd Harri ei berthynas hir a'r mor.

Wedi cyfnod yn ysgol Llanfair ym Muallt aeth Harri i Aberystwyth yn 1939, ond yn 1941 ymunodd a'r Llynges, ac yn ystod y cyfnod hwn y dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth. Wedi'r rhyfel aeth yn ol i Aberystwyth i orffen ei radd ac fe briododd a Madeleine yn 1946. Y flwyddyn honno cyhoeddwyd 'The Enemy in the Heart' yn y Welsh Review. Cwblhaodd Harri ei M.A. ym 1948 a bu'n dysgu prentisiaid yn Nociau'r Llynges yn Portsmouth gan nad oedd wedi llwyddo cael swydd mewn prifysgolion.

Ym 1957 cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf sef 'The Enemy in the Heart' ac ym 1959 aethant i fyw i Newcastle, Awstralia, lle roedd Harri wedi cael swydd yn y Brifysgol. Ym 1960 cyhoeddwyd yr ail gyfrol 'Songs of a Mad Prince'. Yna, cyhoeddwyd ei astudiaeth feirniadol o Dylan Thomas a'i drydedd gyfrol o farddoniaeth, 'The Beast at the Door' ym 1963.

Aeth Harri trwy gyfnodau anodd gan deimlo pytiau o euogrwydd a theimladau o fethiant personol. Wedi wythnos galed yn trefnu darlithoedd a darlleniadau mewn ysgol haf, aeth am dro ar y clogwyn sy'n edrych dros Gefnfor India. Daethpwyd o hyd i'w gorff y noson honno, wedi ei foddi yn y 'Bogey Hole', pwll nofio a naddwyd yn y graig.

Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Llanfihangel, Brynpenbuan, gerllaw Cwm Grogan. Wedi ei farw, cyhoeddwyd 'The Colour of Cockcrowing' (1966) a 'The Collected Poems of T. Harri Jones'(1977).

## LLONGYFARCH

Newyddion munud ola' cyn i'r papur fynd i'w wely. Llongyfarchiadau i'r Dr. Phil Ellis a'i wraig Angharad ar enedigaeth mab, brawd bach i Dafydd. Ni phenderfynwyd ar enw i'r bychan eto. Awgrym gan un nad oes raid ei henwi fyddai 'Camwy' - o gofio mai yn y Dyffryn hwnnw y bydd yn treulio'r rhan orau o'i flwyddyn gyntaf! Braf ei fyd medd "honno".

# Atodiad Eisteddfod



## Croeso Cynnes Casnewydd

Mae cylch y Cymry Cymraeg yng Nghasnewydd yn un bach - yr ydym i gyd yn adnabod ein gilydd yn dda iawn - neu dyna yr oeddynt yn ei feddwl. Wedi wythnos gyffrous y Cyhoeddi, mae pethau wedi newid; yr ydym wedi tyfu llawer yn agosach ac hefyd yr ydym wedi darganfod llawer o Gymry newydd yng Ngwent nad oeddem yn ymwybodol ohonynt.

Yr oedd y rhaglen yn uchelgeisiol iawn yn cwmpasu naw dydd o weithgareddau. Rhai yn dweud ein bod wedi ymgeisio gormod ond, yn y diwedd, yr oedd popeth yn llwyddiannus iawn.

Dechreuodd yr wythnos ar y Sadwrn cyntaf gyda Ysgol undydd i Ddysgwyr yn Nhy Rhydychen, Rhisga a drefnwyd gan Jane Williams. Pump a deugain yn bresennol a phawb yn frwd. Y Sul cyntaf cynhaliwyd gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol (Gwynllyw Sant) o dan arweiniad y Canon Gareth Lewis gyda dau gant yn y gynulleidfa.

Nos Lun - Sioe Ffasiynau yn y Ganolfan Hamdden. Torf o fenywod yno i weld sioe o ddillad tarawiadol gan "Marilyn Fashions" (Casnewydd) a'r dynion yn ceisio cuddio'r llyfrau sieciau!

Nos fawrth - noson werin gyda phlant a gwerinwyr Casnewydd mewn rhaglen wedi ei seilio ar draddodiadau ac arferion Gwent. Tair golygfa - Noson Lawen, Llys Llanofer a Ffair Caerffili. Plant Casnewydd yn canu ac yn dawnsio, y mwyafrif ohonynt o ysgolion Saesneg, ond heblaw hynny yn canu gydag acenion perffaith. Gwerinwyr Gwent yn dawnsio hefyd gyda chymorth disglair oddiwrth Heather Jones a Hin Deg.

Nos Fercher - y ddarlith Saesneg gan yr Athro Emeritws Gwyn Alf Williams ar y testun "The Silurian Republic." Darlith ddisglair, diddorol a doniol yn cynnwys llawer o ffeithiau newydd am oes y Siartiaid.

Nos Iau - noson gan Ieuenctid Gwent, "Strafagansa Gymreig", o dan arweiniad Glynne Jones. Rhaglen ardderchog a'r gynulleidfa'n dangos gwerthfawrogiad arbennig. Band pres, The Gwent Big Band, Cerddorfa Canol Gwent, corau ysgolion ac yn y blaen; pob math o adloniant. Ond does dim dwywaith amdani mae uchafbwynt y noson - neu efallai uchafbwynt yr wythnos - oedd y plant o Unedau Cymraeg Casnewydd a Chwmbran yn rhoi gwledd o ganu ac o ddawnsio i ni - Croeso '88 - gyda chân ddeniadol a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y noson - "Croeso i Gasnewydd."

Nos Wener - Rifiw, "Ble mae'r Swyddfa?" a gynhyrchwyd gan ein Pwyllgor Drama. Yr oedd yn ddigri iawn gyda mwy nag un cyfeiriad cyfrwys at fywyd Cymru heddiw.

Dydd Sadwrn - y dydd hollbwysig. Codi yn gynnar ac edrych allan - glaw mân! Ond gwellodd y tywydd ac, erbyn y prynhawn, yr oedd hi'n sych ac o'r diwedd, daeth yr haul allan.

Gorymdaith yr Orsedd trwy ganol Casnewydd a thorfeydd yn gwylio ni fel pe bae ni'n bobl o fyd arall! Llawer o ddiddordeb a rhai yn curo dwylo.

Aeth Seremoni'r Cyhoeddi ymlaen yn ddirwystr. Cafodd Emrys Deudraeth ei orseddu'n Archdderwydd newydd Cymru a'r holl weithgareddau'n denu sylw manwl trigolion Casnewydd. Wyth cant yn eistedd yn y seddau a channoedd eraill yn sefyll. Mwy o luniau'n cael eu tynnu nag erioed ym Mharc Tredegar - safle gwych Eisteddfod 1988. Yr oedd pawb yn canmol harddwch Cylch yr Orsedd - meini "Blue Pennant" o chwarel Gelligaer.

Y noson honno cynhaliwyd Cyngerdd y Cyhoeddi gan Côr yr Eisteddfod o dan arweiniad Alun Guy gyda phedwar artist ifanc a cherddorfa arbennig. Yn hanner cyntaf y rhaglen cafwyd cerddoriaeth Gymraeg gyfoes a'r ail ran, Offeren Nelson gan Haydn.

Prynhawn Sul - taith bleserus iawn ar y gamlas ac wedyn, i ffwrddani i hen gapel Cymraeg Llanofer i wrando ar Ddarlith Gymraeg gan Hywel Teifi Edwards. Siaradodd am hen Eisteddfodau Gwent, yn enwedig Eisteddfodau'r Fenni ac Eisteddfod Casnewydd 1897. Clywsom mai yn Eisteddfod Casnewydd 1897 y gwisgwyd dillad lliwgar presennoluyr Orsedd am y tro cyntaf.

Ar ôl yr holl gynnwrf yma nid syndod bod pawb yn flinedig ond hefyd yr oedd pawb yn edrych ymlaen yn hapus ac yn hyderus at ein Eisteddfod ni.

John Hughes.
Cadeirydd Eisteddfod Casnewydd 1988

Fe ddaeth Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Casnewydd 1988 i ben ar bnawn Sul, Mehefin 28 yn nhawelwch yr Hen Gapel yn Llanofer. Traddodwyd darlith gan Hywel Teifi Edwards ar hen Eisteddfodau Gwent gyda sylw arbennig ar Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1897. Diweddglo hapus a theilwng i dros wythnos o weithgareddau cyffroes.

Y Seremoni Cyhoeddi o fewn i gylch yr orsedd ddylai fod yn uchafbwynt yr Wyl Cyhoeddi. ond y tro hwn rhaid i Orsedd y Beirdd rannu'r pinacl gyda nosweithiau'r plant a'r ieuenctid; gyda'r criw slic a gyflwynodd y Rifiw; gyda'r Athro Gwyn A. Williams a ddadansoddodd y Siartwyr; gyda'r awr o ddefosiwn yn y Gadeirlan; a chyda ahyngerdd y Côr a r y nos Sadwrn a'r datganiad cofiadwy o 'Sanctus' Arwel Hughes.

Ond chwarae teg i'r Beirdd. 'Roedd rhywbeth yn ots yn y Seremoni Cyhoeddi. 'roedd y cwrteisi a'r gymeradwyaeth a roddwyd gan bobl Casnewydd i'r orymdaitn drwy'r dre ar bnawn Sadwrn yn cadarnhau'r geiriau o groeso brwd o enau'r Maer a gafwyd dros ginio. Pe wenodd yr haul, a chafodd yr Orsedd gyfle i ymgartrefu yn y Cylch ysblennydd yng Ngerddi Ty Tredegar. Eisoes mae'r meini wedi cymryd eu lle yn nythu ger y llyn mewn llwyn o goed.

Urddwyd Emrys Deudraeth yn Archdderwydd a chafwyd perfformiadau urddasol gan Fam y Fro (Janet Butcher) a Merch y Fro (Kathryn Hunt). Bu'r plantos yn cyflwyno'r ddawns flodau gydag afiaith, ac fel y gellid disgwyl, roedd graen ar holl ddatganiadau'r Maen Llog ar lafar ac ar gân. 'Roedd yn braf gweld Seindorf Arian Cross Keys yn ledio'r orymdaith ac yn cyfeilio yn y Seremoni o gylch yr Orsedd.

Bellach cyhoeddwyd y Rhestr Testunnau. Mae'n werth ei brynu a'i drysori pe bai ond am yr hyn a geir yng Nghystadleuaeth 170 (Adran Gerdd). Pe bai Eisteddfod Casnewydd yn gwneud dim mwy na chyflwyno hyn i drysorfa'r Genedl mae wedi cyfiawnhau'r holl chwys a llafur.

GWYNN TUDNO



# BRO MADOG 1987

Y BABELL LÊN - Premiere Ffilm

Am y tro cyntaf erioed dangosir premiere ffilm ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fel rhan o weithgaredd y Babell Lên.

Ffilm a gomisiynwyd gan S4C ar yr emynyddes Ann Griffiths yw hon. Ysgrifennwyd y sgript wreiddiol gan y Prifardd Dafydd Rowlands. Y cyfarwyddwr yw David Lyn, y cynhyrchydd Wilbert Lloyd Roberts a'r golygydd yw Peter Stewart.

Fe'i ffilmiwyd yng nghynefin Ann Griffiths ym Mhowys gan Gwmni Teledu Ffenics a phortreadir y prif gymeriadau gan Morfudd Huws a Geraint Griffiths.

Ar y diwedd bydd trafodaeth ar y ffilm dan gadeiryddiaeth Hywel Teifi Edwards, a chan ei bod yn sôn am rai agweddau ar fywyd yr emynyddes cyn ei throedigaeth, rhagwelir y gall fod yno ddadlau go fywiog ar adegau.

THEATR Y MAES - Rhaglenni Plant

Bydd darpariaeth helaeth ar gyfer plant yn Theatr y Maes ym Mhrifwyl Bro Madog eleni. Neilltuwyd amryw byd o gyfnodau iddynt yn ystod yr wythnos.

Cânt gyfle, er enghraifft, i adnabod Sionyn a Del, dwy gwningen ddrygionus sy'n perthyn i Mrs. Llwydyn. Fe'u cyflwynir mewn sioe bypedau liwgar gan Gwmni Cortyn. Pa driciau a wnant, a beth sy'n digwydd iddynt? Mae'r atebion yn llythrennol ar flaenau bysedd y pypedwr Owen Glynne Davies, (ie, un o feibion T Glynne) o Benrhyndeudraeth.

Nid yn y Theatr ei hun y gwelir Cwmni'r Fran Wen, ond mewn awyrgell amryliw y drws nesaf iddynt. I fynd i mewn i'r awyrgell rhaid i'r plant wthio drwy ryw fath o dwnel - a thynnu eu 'sgidiau at hynny! Cyfyngir y gynulleidfa i 25 ar y tro ond mae'r cwmni yn cyflwyno tri pherfformiad bob dydd o'u prosiect Theatr mewn Addysg dan y teitl 'Swyn y Blodau'.

Cyflwynir y rhaglen arall i blant gan fyfyrwyr y Coleg Normal. Hwy hefyd a luniodd y sgript ac a fydd yn cynhyrchu. Pwrpas eu rhaglen 'Brensiach Bratia' yw denu plant ifanc i ddarllen trwy ddangos iddynt yr hwyl a'r sbri a geir yng nghwmni rhai o gymeriadau lliwgar llyfrau Cymraeg fel Teulu'r Cwpwrdd Cornel, cyfres Rwdlan, Superted a Llyfr Mawr y Plant.

Y plant eu hunain fydd yn perfformio yn y rhaglen 'Croeso, Croeso', dan nawdd y Mudiad Ysgolion Meithrin. Rhydd aelodau o bedwar-ar-ddeg o gylchoedd meithrin bro'r Eisteddfod groeso arbennig i bobl ddieithr mewn dau berfformiad ddydd Llun. Y cynhyrchydd yw Olwen Jones a hi ynghyd â'r Parch. Byron Howells a ysgrifennodd y sgript.

THEATR Y MAES - Rhaglenni Teyrnged

Coffeir tri o enwogion o ddalgylch Eisteddfod Bro Madog mewn rhaglenni teyrnged yn Theatr y Maes eleni.

Brodor o Ddyffryn Nantlle oedd Huw Lloyd Edwards, y dramodydd, a than y teitl 'Crewr Cymeriadau' cyflwynir golygfeydd allan o dair o'i ddramau, 'Y Gŵr Drwg', 'Pros Kairon' a 'Y Llyffantod'. Ysgrifennwyd y sgript gan Vic John, un o gyd-athrawon yr awdur yn Ysgol Dyffryn Nantlle ar un adeg, a bydd y rhaglen yng ngofal Edwin Williams, un arall o'i gydweithwyr pan oedd yn ddarlithydd yn y Coleg Normal.

Y darllenwyr fydd Jini Owen, R. Llywelyn Thomas, Morien Phillips, J.O. Roberts, Gwyn Lloyd, Edwin Williams, Helen Griffith, a Huw Geraint Pritchard ynghyd â Chôr Adrodd Cymdeithas Ddrama y Coleg Normal.

Un arall y cyflwynir peth o'i waith yw'r diweddar J.T. Jones, cyn-brifathro Ysgol Ganol Porthmadog, a gŵr yr ystyrir ei gyfieithiadau o ddramâu Shakespeare yn gampweithiau.

Cyflwynir detholiadau o'r cyfieithiadau hyn gan blant ysgolion uwchradd Porthmadog, Harlech, Pwllheli, Botwnnog a'r Bala.

Dan nawdd y Pwyllgor Cerdd Dant bydd cyfarfod teyrnged i Delynores Eryri - Edith Evans, o Feddgelert, sylfaenydd Côr Telyn Eryri. Gwnaeth hi gyfraniad nodedig i fyd cerdd dant ac adloniant ysgafn a chofir yn arbennig am ei hamseru meistrolgar mewn caneuon actol fel 'Y Tramp' a'r 'Postmon'.

Ysgrifennwyd sgript y rhaglen gan Esyllt Maelor a phortreadir Telynores Eryri gan yr actores Mair Tomos Ifans.

THEATR Y MAES - Drama Awr Ginio

Torrir tir newydd ym myd y ddrama ym Mhrifwyl Bro Madog eleni trwy gael perfformiad o ddrama yn Theatr y Maes bob amser cinio.

Teimlai'r Pwyllgor Drama y bu gorbwyslais ar drafodaethau ar adegau yn y gorffennol a phenderfynwyd eu disodli eleni gan Ddrama Awr Ginio.

'Bobi a Sami' gan W.S. Jones a lwyfennir i agor a chloi'r perfformiadau hyn, ar ddau Sadwrn yr Wyl. Dau drempyn, heb lawer o ddyfodol o'u blaenau, yn athronyddu uwch eu tynged yn y byd a bortreadir yn y ddrama hon, ac fe'i cyflwynir gan Gwmni Croeso Cymru gyda Dewi T. Davies yn cynhyrchu.

Cwmni Glannau Dwyfor o Lanystumdwy (cynhyrchydd H. Gwyn Roberts) a rydd y ddrama awr ginio ddydd Llun, sef 'Gwyn y Gwêl' gan William Owen, portread o ward breifat mewn ysbyty mamaeth rhyw fin nos ym mis Ebrill.

Lleolir drama dydd Mawrth, 'Traed Rhydd' mewn llofft stabl yn Nyffryn Conwy yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf pan oedd y plismyn lleol ar drywydd ffoadur o'r fyddin. Fe'i ysgrifennwyd gan Myrddin ap Dafydd, ac ef, ynghyd ag Arwel Roberts, sy'n cynhyrchu i Gwmni Capel Garmon.

BANDIAU

Mae bandiau, fe ymddengys, yn ennill poblogrwydd ymysg pobl ieuainc. Ar Sadwrn cyntaf y Brifwyl ym Mro Madog bydd chwech o fandiau ieuenctid yn cystadlu. Ni welwyd cynifer ers blynyddoedd - os bu cynifer erioed yn wir.

Bandiau o Wynedd yw pedwar ohonynt - Llanrug, yr Oakeley, Deiniolen a Phorthaethwy. Bandiau Aberystwyth a Thredegar yw'r ddau arall.

O Wynedd y daw pedwar o'r hanner dwsin a fydd yn cystadlu yn nosbarthiadau B a C hefyd: Trefor, yr Oakeley, Deiniolen a Phorthaethwy. Gwaun-Cae-Gurwen a Llansaint fydd yn cynrychioli y gweddill o Gymru y tro hwn.

Yn nosbarth D, ni dderbyniwyd ond un enw - Trefor.

Ar Sadwrn olaf yr Wyl y clywir bandiau dosbarth A, ac mae dau o'r rheini: Llanrug a BTM (sy'n gyfuniad, wrth gwrs o Bedwas, Tretomos a Machen).

## DRAMÂU NOS

Dylai dilynwyr dramâu fod ar ben eu digon yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ar wahân i dorri tir newydd trwy gyflwyno drama yn Theatr y Maes bob awr ginio, y mae Pwyllgor Drama Prifwyl Bro Madog wedi sicrhau tair canolfan ar gyfer perfformiadau gyda'r nos - a hynny bob nos.

Yn Theatr Ardudwy, Harlech, nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher, cyflwynir drama gomisiwn yr Eisteddfod, 'Perthyn' gan Michael Povey. Disgrifir y ddrama hon fel un feiddgar ac amserol. Mae'r thema yn trafod troseddu rhywiol yn erbyn plant o fewn y teulu - llosgach - ond gwna hynny yn eithriadol o gyfrifol a sensitif, ac heb fynd o'i ffordd i siocio, meddai darllenwyr y sgript. Dywedir, fodd bynnag, ei bod yn gwbl anaddas i blant dan 16 oed.

Y cyfarwyddwr yw Dafydd Hywel a phortreadir y cymeriadau yng Nghwmni Whare Teg gan Clive Roberts, Iola Gregory ac Ifan Huw Dafydd.

Am y tair noson arall yn Theatr Ardudwy bydd cwmni'r Eisteddfod yn cyflwyno 'Gwas i Ddau Feistr', sef cyfieithiad gan William Paganuzzi a Huw Roberts o ddrama Eida gan Carlo Goldoni.

Neuadd Goffa Cricieth yw un o'r ddwy ganolfan arall. Yno y bydd rowndiau terfynol y tair cystadleuaeth actio drama fer - y gystadleuaeth agored, yr un dan 30 oed a'r un dan 19 oed.

Nos Lun: Clwb Ffermwyr Ieuainc Pontygarreg, 'Hust! Mae'r Babi'n Cysgu', J.R. Evans, (dan 30 oed); Cwmni Rhos y Gad, Llanfairpwllgwyngyll, 'Y Pwyllgor', D.T. Davies (agored); Cwmni'r Llechen Las, Dyffryn Ogwen, 'Y Drws Agored', J.R. Evans (agored).

Nos Fawrth: Aelwyd Llangwm, 'Poen yn y Bol', Gwenlyn Parry (dan 30); Glannau Dwyfor, 'Mae Newid yn Chênj', William Owen (agored); Cwmni'r Fuwch Goch, Caerdydd, 'Yr Arth', Tsiecof, cyfieithiad Cynan (agored).

Nos Fercher: Ysgol Dyffryn Ogwen, 'Daw Priodas yn Fuan', Grace Roberts (dan 19); Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli, 'Newyddion Brys', Wilson John Hare, cyfieithiad Dilwyn Ellis Hughes (dan 19); Ysgol y Berwyn, y Bala, 'Cyfiawnder o Fath', cyfieithiad John Griffith Jones (dan 19).

Yn Neuadd Goffa Cricieth ar nos Iau, nos Wener, nos Sadwrn, cyflwynir 'Y Gŵr Llonydd', John Gwilym Jones gan Gwmni Theatr Fach, Llangefni.

Theatr y Maes wrth gwrs yw'r drydedd ganolfan. Yno ar nosau Llun, Mawrth a Mercher bydd Cwmni'r Gadwyn, Caerdydd yn perfformio 'Pum Picil', cyfieithiad Emyr Edwards o 'Confusions', Alan Ayckbourne. Ac ar nosau Iau, Gwener a Sadwrn ceir Rifiw gan ieuenctid o fro'r Eisteddfod. Bydd y sgriptio y cynhyrchu a'r cyfarwyddo gan Margiad Roberts a Bryn Fôn.

Buddugwyr Gŵyl Ddrama'r Urdd yn y Bala eleni, sef cwmni Aelwyd Abergele, (cynhyrchydd, Brian Morris) yw un o'r cwmniau eraill. Byddant hwy yn llwyfannu 'Tipyn o Nwy' (Urien Wiliam). Cafodd y cwmni hwn, sy'n cynnwys 25 o bobl ieuainc, glod uchel iawn am eu perfformiad yng Ngŵyl yr Urdd.

## Y PAFILIWN - Corau

Bydd trigain o gorau yn esgyn i lwyfan Prifwyl Bro Madog eleni. A dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd lawer i bum côr anfon eu henwau ar gyfer y brif gystadleuaeth corau meibion. Yn ymryson am Gwpan y Gwarchodlu Cymreig bydd y Brythoniaid, Côr Meibion Rhosllannerchrugog, Trelawnyd, Y Traeth a Chaernarfon.

Daw tri i'r ornest am Gwpan y Ffiwsilwyr Cymreig i gorau meibion rhwng 41 a 60 mewn nifer; Colwyn, y Moelwyn, a Chôr Meibion yr Eifl.

Yn y gystadleuaeth arall i gorau meibion, rhai heb fod dros 40 mewn nifer, daeth wyth enw i law. Ymysg y rhain y mae'r unig gorau meibion o'r De, sef Maesteg a Morlais. Y chwech arall yw: Bro Glyndŵr, Llangwm, Ardudwy, Bro Aled, Penybontfawr a Dyffryn Nantlle. Cynhelir y tair cystadleuaeth corau meibion ar Sadwrn olaf yr Wyl.

Ddydd Llun, yn ôl yr arfer, y clywir prif gystadleuaeth y corau cymysg am Gwpan y Cymro. Bydd tri chôr, dau ohonynt o'r un ardal fwy neu lai, sef Rhuthun a'r Cylch a Phwllglas a'r Cylch. Côr Godre'r Garth yw'r llall.

Bydd unarddeg o gorau cymysg, 41-60 mewn nifer ar y Sadwrn cyntaf; Ieuenctid Bro Dysynni, Cantorion Glan Alun (Treffynnon), Dyffryn Tanat, Crymych, (y buddygwyr y llynedd), Llanpumsaint, Godre'r Eifl, Bro Dyfrnn, Llanuwchllyn, Bro Cefni, Llanwnnog a'r Rhyd (Ystalafera).

Yn y gystadleuaeth i gorau cymysg dan 40 mewn nifer ddydd Gwener, dyma'r corau a ymddengys: Lleisiau'r Bont, (Bangor), Rama a'r Cylch (Caerfyrddin), Cantorion Enddwyn (Ardudwy), Capel Bethesda (Yr Wyddgrug), a Chôr Eifionydd.

Megis yn y brif gystadleuaeth i gorau meibion bydd pum côr hefyd yn y brif gystadleuaeth corau merched. O'r Gogledd y daw'r rhain hefyd: Bro Dysynni, Alawon Menai, Carmel (Llanrwst), Edeyrnion a Cholwyn. Dau gôr a ymddengys yn yr adran i gorau merched heb fod dros 30 mewn nifer: Lleisiau'r Gest ac Alawon y Mynydd (Carmel, Arfon). Ar ddyddiau Mercher a Iau y cân y corau merched.

Cystadleuaeth boblogaidd bob blwyddyn yw'r Côr Pensiynwyr. Bydd pump ohonynt ym Mro Madog ar ddydd Mercher: Llandrygarn, Deudraeth, Aberteifi, Rhosllanerchrugog a Westminster, Ellesmere Port.

Ymhlith y corau ieuenctid bydd cantorion o ysgolion Emrys ap Iwan (Abergele), Dyffryn Nantlle, Glan-y-Môr, (Pwllheli), Eifionydd (Porthmadog), Y Moelwyn (Blaenau Ffestiniog) a Thywyn.

Erys un gystadleuaeth gorawl arall - y corau Cerdd Dant a glywir yn y sesiwn olaf i gloi'r Eisteddfod nos Sadwrn. Mae saith côr: Y Ddinas, (Caerdydd), Rhiannedd Môn, Merched Uwchllyn, Merched Bro Hedd Wyn, Meibion Prysor, Godre'r Aran a Myfyrwyr Bangor.

Yn y gystadleuaeth partion Cerdd Dant agored y mae dwsin yn cystadlu a gobeithir rhoi chwech ohonynt ar y llwyfan eleni yn hytrach na thri fel sy'n arferol. Cynhelir y gystadleuaeth honno hefyd ar y Sadwrn olaf.

## CANLYNIADAU EISTEDDFOD YR URDD MERTHYR TYDFIL

Can Actol dan 12 oed - 2il
Ysgol Melin Gruffydd
Unawd Llinynnol dan 12 oed - 1af, Esther Watkins, Y Wern
Parti Deulais dan 12 oed - 1af, Melin Gruffydd
Addysg Gorfforol dan 12 oed - 3ydd, Ysgol Gymraeg Penarth
Grwp Dawnsio Disgo dan 12 oed - 2il Parti Elizabeth, Ysgol Brynderi
Unawd Telyn 12-15 oed - 3ydd Non Gwilym, Ysgol Glantaf
Unawd Llinynnol 12-15 oed - 2il Mared Whelan, Glantaf
Parti Cerdd Dant Dysgwyr - 3ydd, Ysgol Howells
Unawd Piano 12-15 oed - 1af Huw Harries, Glantaf
Ensemble dan 15 oed - 2il Ysgol Glantaf
Cân Roc dan 15 oed - 3ydd Grwp Aled, Ysgol Glantaf
Grwp Dawnsio Disgo dan 15 oed - 2il Mellt, Ysgol Glantaf
Adrodd 15-19 oed - 3ydd Dafydd Roberts, Ysgol Glantaf
Unawd Pres 15-19 oed - 1af Gareth Jones, Ysgol Glantaf
3ydd Julie Jones, Ysgol Glantaf
Unawd Llinynnol 15-19 - 2il Mared Wheelan, Ysgol Glantaf
Unawd Piano 15-19 oed - 2il Owen Saer
Dawns Greadigol 15-19 oed - 1af Ysgol Uwchradd Yr Elwys Newydd
Cerddorfa dan 19 oed - 2il Ysgol Glantaf
Grwp Cerddoriaeth Greadigol - 1af Ysgol Uwchradd Fitzalan
Côr SATB 15-19 oed - 2il Ysgol Glantaf
Cân Ysgafn Fodern - 3ydd Llenwi'r Bwlch, Ysgol Glantaf

### Celf a Chrefft

Collage dan 8 -3ydd Alun Jones, Bro Eirwg
Modelau dan 12 oed - 3ydd Osian Roberts, Bro Eirwg
Tegan Meddal dan 12 oed - 2il Bethan James, Y Wern
Gwau a Chrosio dan 12 oed - 3ydd Zoe Hales, Y Wern
Technoleg a Chrefft dan 12 - 2il Bethan Gray, Bro Eirwg
Ffotograffiaeth dan 15 oed - 2il Adam Yeoman, Ysgol Glantaf

Gwaith 3D Blwyddyn 1 a 2 - 1af Catrin Edwards, Ysgol Glantaf
Gwaith 3D Blwyddyn 3 a 4 - 1af, Branwen Roberts, Ysgol Glantaf
Gwaith 3D Blwyddyn 3 a 4 - 2il Shan Edwards, Ysgol Glantaf
Gwaith 3D Blwyddyn 3 a 4 - 3ydd Lowri Harries, Ysgol Glantaf
Gwaith 3D Blwyddyn 3 a 4 - 3ydd Huw Williams, Ysgol Glantaf
Macrame Blwyddyn 1 a 2 - 2il Sara Morris, Ysgol Glantaf
Gwnio Blwyddyn 1 a 2 - 2il Ceri Evans, Ysgol Glantaf
Collage dan 12 oed i Ysgolion Arbennig - 2il Garmon ap Michael a Geraint Morris, Ysgol Coedygof

TORRI TIR NEWYDD

Ceir arbrawf diddorol ar gyfer dysgwyr yn Eisteddfod Casnewydd. Am y tro cyntaf bwriedir cynhyrchu llyfryn arbennig ar eu cyfer. Bydd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am yr Eisteddfod ac am y gweithgareddau ieithyddol fydd ar gael yno. Bydd hyn yn ychwanegiad at y cyfleusterau arferol a gynigir ym Mhabell y Dysgwyr.

Bydd y llyfryn o ddefnydd i bobl sydd heb wybod am y Gymraeg yn ogystal a dysgwyr. Pwrpas y llyfryn yw paratoi arweiniad hanesyddol i'r Eisteddfod ar gyfer ymwelwyr gan Elen Rhys ac Ann Jones, hefyd yn cynnwys gwersi ar gyfer dysgwyr.

Cysyllter ag Elen Rhys, Caerdydd 32326 am fanylion pellach.

*****

NODDWYR HAEL

Mae llawer o bobl yn noddi'r Eisteddfod wrth gwrs a llawer yn hysbysebu yn y Rhaglen Swyddogol a'r Rhestr Testunau. Rhai arbennig a ddaeth i'n sylw:
* Lex Mead yn rhoi Metro City yn brif Wobr y Raffl Fawr
* Cwmni Peacocks yn noddi holl Adran Cerdd Dant yr Eisteddfod
* Cwmni Teledu Harlech yn noddi'r gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn.

Y CORN YN EI GYNEFIN

Mae pob Eisteddfodwr yn gyfarwydd a'r Corn Hirlas a ddefnyddir ymhob seremoni o eiddo'r Orsedd. Tybed faint ohonynt sy'n gwybod mai Arglwydd Tredegar, perchennog y plasdy lle cynhelir Prifwyl 1988 a ofynnodd i Goscombe John gynllunio'r Corn ac a'i rhoddodd i'r Eisteddfod Genedlaethol 90 o flynyddoedd yn ol ym 1898.
Pan fo'n segur, mae'r Corn yn gorwedd ar stondin hardd yn yr Amgueddfa Werin

Mae'r Corn felly'n dod yn ôl i'w gartref gwreiddiol yn Eisteddfod Casnewydd ym 1988.

******



# Cip ar y cyhoeddi

Pleser i'r Dinesydd yw cael cyhoeddi'r lluniau o'r Wyl Gyhoeddi a welir yn y rhifyn hwn o waith y ffotograffydd Jeffrey F. Morgan. Rhoddodd y lluniau yn rhad ac am ddim i'r Dinesydd ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo. Mae ganddo gasgliad helaeth o luniau o'r Wyl a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar ddydd Sadwrn 27 Mehefin, Os hoffech gopiau cysylltwch ag ef trwy ysgrifennu ato i'r cyfeiriad isod:
23 Belvedere Terrace, Casnewydd, Gwent, NP9 5FQ. Ffôn: Casnewydd 8529921





"Mae diwyg Y Faner wedi gwella".




"Mae hi'n edrych yn debyg i law, Emrys."



"I'm miles from Newport, Pembs."

# Stabal Newydd Sbec




Bydd dydd Llun, Gorffennaf 20fed yn garreg filltir arall yn hanes S4C. Dyna'r diwrnod yr agorir adeilad newydd y Sianel ar faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd. Bu S4C yn bresennol yn y bedair Sioe ddiwethaf oddiar geni S4C yn Nhachwedd 1982. Dyma'r tro cyntaf, fodd bynnag, i'r Sianel ddilyn esiampl y BBC a HTV, y banciau ac amryw bod o'r Cyrff Amaethyddol fod yn Llanelwedd ar ei haelwyd ei hun.

Caerdydd yw Pencadlys S4C gyda Chaernarfon yn bresenoldeb allweddol bwysig yn y Gogledd Gymraeg. Amheuthun felly yw bwrw gwreiddiau mewn ardal wledig a thrwy hynny ddangos ymlyniad cadarn S4C wrth amaethyddiaeth - y mwyaf Cymraeg o'n diwydiannau.

Saif yr adeilad mewn safle amlwg ar ymyl y brif gylch. Mae ei dri llawr yn cynnwys siop, swyddfa, cegin, lolfa, arddangosfa, ystafell gyfarfod a darpariaeth i baratoi rhaglenni. Y bwriad yw defnyddio'r adeilad trwy gydol y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd perthnasol i S4C gan fanteisio ar ei leoliad hwylus i bob cwr o'r wlad.

Agorir yr adeilad, ar Orffennaf 20fed, gan Gadeirydd cyntaf S4C, Syr Goronwy Daniel. Os digwydd i chi fod yn y Sioe, yn ystod yr wythnos, bydd croeso i chi alw heibio. Prin y gellwch honni nad oes modd dod o hyd i S4C ar Faes y Sioe.




## LLONGYFARCH

Yn ddiweddar bu dathliad mawr yn Llandennis Avenue. Daeth Judith, Ann, Sian a Paul gartre i ddathlu penblwydd eu mam, Heulwen Morgan, yn bedwar ugain oed. Llongyfarchiadau calonog iawn iddi. I'r sawl sy'n gyfarwydd â hi a'i phriod, Handel, pleser bob amser yw cael bod yn eu cwmni. Mae gan y ddau atgofion am Gaerdydd gwahanol iawn i'n Caerdydd ni. Cofia'r ddau am Gyncoed cyn bod Lakeside; gwyddant am bob coeden yn yr ardal. Er treigl y blynyddoedd, mae côf a nwyfiant y ddau yn eu cadw'n fythol ifanc.



Heulwen a'i gŵr Handel

## Dewch ar y Trên Bach

Y TREN CRWYDRO - 21 MEHEFIN 1987

Bod dydd Sul o 21 Mehefin i 27 Medi gan gynnwys y dyddiadau hynny bydd Cyngor Chwaraeon Cymru, gyda chefnogaeth Cynghorau Sir Dyfed a Phowys a Chymdeithas Cerddwyr Lein Canol Cymru, yn llogi trên arbennig i roi i drigolion Cymru y cyfle i fynd i gerdded, beicio, pysgota a merlota yn harddwch Canolbarth Cymru.

Bydd y trên arbennig - sydd wedi'i alw'n 'Drên Crwydro' - yn gadael Abertawe am 10 y bore gyda chysylltiadau o Gaerdydd, Pen-y-Bont ar Ogwr, Port Talbot a Chastell-Nedd ac yn galw ym mhob gorsaf i Lanelli, Rhydaman, Llandeilo, Llanymddyfri a Llanwrtyd, gan gyrraedd Llandrindod yn fuan ar ôl canol dydd. Ar ôl cyrraedd yno, bydd y trên yn rhedeg nôl ac ymlaen i Lanymddyfri drwy'r prynhawn cyn dychwelyd i Abertawe yn gynnar gyda'r hwyr.

Diben y gwasanaeth cysylltu yw rhoi cyfle i bobl fynd ar un neu ragor o'r teithiau cerdded manwl o unrhyw un o'r 7 gorsaf a man aros ar y ffordd rhwng Llanymddyfri a Llandrindod. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi paratoi taflenni arbennig yn rhad ac am ddim sy'n darparu mapiau a chyfarwyddiadau ar gyfer teithiau cerdded, manylion am weithgareddau eraill a'r lluniaeth sydd ar gael wrth bob gorsaf ar y darn hwnnw. Mae'r teithiau cerdded, sydd wedi eu dyfeisio ar y cyd â cherddwyr lleol, yn cynnig y cyfle naill ai i gerdded mewn cylch o bob gorsaf, neu pan fo hynny'n bosibl, deithiau i gysylltu un gorsaf a'r llall. Ceir enghraifft dda o'r math hwn rhwng unigedd bendigedig Mynydd Pen-y-fâl - sydd wedi ei hagor yn arbennig ar gyfer y 'Trên Crwydro', ar hyd llethr y mynydd ac i lawr i gwm coediog hardd Cynghordy. Yno gallwch ddal y trên mewn pryd i gael te prynhawn yn Llanymddyfri neu Landrindod. Ar y teithiau cerdded hyn mae rhywbeth i bawb, o fynd am dro hamddenol am 2 filltir i daith 11½ am 5 awr i'r cerddwr sydd o ddifri.

I'r rheiny nad ydyn nhw ddim yn ffansio'r trên cysylltu mae bws arbennig wedi ei logi i gwrdd â'r trên yn Llandrindod a mynd â'r teithwyr i Raeadr a Chwm Elan, lle gallwch fynd ar daith gerdded gydag arweinydd am 1½ awr yn rhad ac am ddim. Er y bydd y Trên yn anelu at bobl sy'n ymddiddori mewn hamdden creadigol, gall unrhyw un ddefnyddio'r trên, naill ai fel gwasanaeth cyhoeddus neu i edmygu yr olygfa. Gobeithir y bydd yr economi lleol yn elwa rywfaint drwy greu incwm ychwanegol i fusnesau lleol, a gobeithio hefyd y bydd ymwelwyr sydd eisoes yn aros yn y Canolbarth yn defnyddio'r Trên Crwydro.

I gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu â Huw Davies neu Tim Bull yn y cyfeiriad isod:

Pennaeth Materion Cyhoeddus
Canolfan Chwaraeon Cenedlaethol Cymru
Gerddi Soffia
CAERDYDD CF1 9SW

## Cip ar y Ffilmiau

Ar Y Brig Wrth Odrau'r Alpau

Mae ffilm wedi ei hanimeiddio ar gyfer oedolion, a wnaethpwyd gyda chymorth ariannol gan S4C, newydd ennill yr ail Wobr Premier yng Ngŵyl Animeiddio Annecy yn Ffrainc. Yr ŵyl hon, a gynhelir bob yn ail flwyddyn, ydy'r un bwysicaf o'i bath trwy'r byd a bydd yn denu animeiddwyr o'r Unol Daleithiau a gwledydd Ewrop a dwyrain Ewrop i'r dref ar odrau'r Alpau. Dangoswyd dros gant o ffilmiau yn y gystadleuaeth.

Hanes doniol am bedair o ferched dosbarth gweithiol parchus yn mynd allan am noson i weld dynion yn diosg eu dillad mewn sioe stripio ydy Noswaith Mas Gyda'r Merched. Yr oedd Joanna Quinn, a feddyliodd am y syniad ac a wnaeth y ffilm, wrth ei bodd o gael y cyfle i gymysgu â llawer o bobl yr oedd hi'n edmygu eu gwaith yn y diwydiant animeiddio rhyngwladol yn Annecy. Teimlai bod ennill y wobr yn fonws ychwanegol.

"Dydy fy Ffrangeg i ddim yn dda iawn, felly roedd yn rhaid i mi wrando yn ofalus dros ben pan oeddan nhw'n cyhoedi pwy oedd wedi ennill," meddai.

Daw Joanna o LUNDAIN yn wreiddiol a bu'n fyfyrwraig yng Ngholeg Politechnig Middlesex. Symudodd i GAERDYDD oherwydd yr adnoddau o oedd ar gael yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter a hefyd oherwydd cefnogaeth frwd S4C.

Gwerthwyd y ffilm i'r Swisdir yn barod ac fe'i dangoswyd hi ar y teledu yno. Mae Ffrainc, yr Iseldiroedd a'r Almaen ar ben y rhestr hir o wledydd eraill sydd wedi dangos diddordeb sylweddol yn y ffilm, ac mae Channel 4 hefyd â diddordeb yn y fersiwn Saesneg ohoni.

Ar hyn o bryd, mae'n well gan Joanna Quinn fformat y ffilm fer bum munud. "Does arnai ddim eisiau cyfawddawdu fy steil," meddai. Mae hi'n gweithio ar ffilm i ddilyn Noswaith Mas Gyda'r Merched yn barod. Y tro hwn, bydd yr un merched yn cael obsesiwn â chadw'n iach a heini a bydd hynny yn sicr o'u harwain i ragor o sefyllfaoedd doniol.

Yn y cyfamser, mae ffilm gyntaf Joanna Quinn yn prysur sefydlu Cymru fel gwlad o bwys ym maes animeiddio ar gyfer oedolion - safle y mae wedi ei fwynhau ers tro ym maes animeiddio ar gyfer plant gyda llwyddiant ffefrynnau fel Superted a Sion Blewyn Coch ar S4C.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Aled Islwyn, Swyddfa'r Wasg, S4C. Rhif ffôn: (0222) 43421.

FFILM DDWYIEITHOG


Rhaglen o ddiddordeb arbennig i drigolion Caerdydd oedd Johnny Be Good, ffilm a ddangoswyd ar S4C yn ddiweddar. Ysgrifenwyd sgript y ffilm a chyfarwyddwyd hi yn raenus iawn gan Marc Evans. Cyn-ddigybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen yw Marc. Craddiodd mewn Hanes Celfyddyd ym Mhrifysgol Caergrawnt cyn penderfynu mai ym myd ffilmiau yr oedd ei ddiddordeb pennaf. Penderfyniad pwysig a thyngedfennol, oherwydd enillodd hon, ei ffilm gyntaf, ddwy wobr iddo - y naill oedd Gwobr Ysbryd yr Ŵyl a'r llall oedd y wobr am y Ffilm Gyntaf orau yn yr Ŵyl Ffilmiau Geltaidd yn Douarnenez yn Llydaw ym 1985.

Ffilm ddwyieithog yw Johnny Be Good. Lleolir hi ym mro Preseli yn y chwe degau. Y thema yw'r gwrthdaro sy'n amlygu'i hun pan ddaw 'Jukebox' i'r pentref am y tro cyntaf - y gwrthdaro rhwng mympwy a dyletswydd. Mae'r 'juke-box' yn cael effaith fawr ar John, mab i ffermwr lleol a hefyd ar Warren, y gwas fferm o Sais. Mae'n allwedd i fywyd newydd nad oes a wnelo a bywyd fferm. Mae Elvis Presley yn mynd a bryd y ddau lanc yn llwyr, a gwelir gwrthdaro arall - rhwng y ffordd o fyw na newidiwyd cymaint a hynny arno ers canrifoedd a diwylliant y byd canu pop. Nid yw boregodi'r naill yn cydfynd o gwbl ag oriau hwyr y llall.

Daw pethau i ben pan fo tad John farw'n ddisymwth a neb ond y mab i gymryd ei le ar y fferm. Dewis Warren yw ymadael i brofi'n helaethach o'r bywyd a amlygwyd iddo drwy gyfrwng y 'juke-box'. Nid oes gan John, druan, fawr o ddewis ond aros i ateb galwad y tir.

Amaturiaid yw'r actorion yn y ffilm gyda rhai o wynebau cyfarwydd o Gaerdydd ynddi. Mae hyn yn gwneud eu perfformiadau yn llawer mwy canmoladwy a chlodwiw. Llongyfarchiadau calonog i Marc Evans ar ei orchest. Mawr hyderwn y cawn weld rhagor o'i waith yn y dyfodol.

Ray Evans.



# Mabsant



Cewch weld un o enillwyr Eisteddfod Llangollen 1986 yn ymddangos yng Ngwyl Theatr Hafren eleni, fel aelod o'r grwp gwerin MABSANT. Fe dderbyniodd Robin Bowen glod uchel gan feirniaid yr Eisteddfod honno am gywreinrwydd ei gelfyddydar y delyn deires, ac wedi cael blas ar lwyddiant penderfynodd adael ei swydd yn y Llyfrell Genedlathol ac ymuno a Siwsann George a Stuart Brown i ddiddanu cynulleidfaoedd led led y byd.

Ers hynny bu'r tri yn perfformio yn y Dwyrain Pell i bobl Thai, Malaysia a'r Philippines, ac yn gwneud record hir newydd, 'Trwy'r Weiar (1404M) i Sain, a recordio i'r teledu a'r radio. Prysur iawn fu eu teithiau yn ystod y tri mis diwetha ac fe fydd Mabsant yn dychwelyd i Wyl Glasgow a thaith o'r Alban i berfformio yng Ngwyl Hafren ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 14eg.
Ar ol hyn fe fyddant yn gweithio ar hybu 'Trwy Weiar", allan nawr, a gobeithio dychwelyd i berfformio yn yr Amerig yn ystod mis Awst a mis Medi. Mae stwr mawr wedi codi yn yr Unol Daleithiau gan fod nifer o gerddorion o sawl gwlad yn y byd wedi cael gwrthod mynediad gan yr awdurdodau ymfudo i weithio yno, a Mabsant yw un o'r prif grwpiau sy'n cael ei drafod yn yr ymgyrch i wrthwynebu'r ddeddf visa newydd y mae'r Senedd yn Washington am weithredu er mwyn atal cerddoriaeth leiafrifol yn yr Amerig.

## CYMDEITHAS DDRAMA HEOL Y CRWYS

Yn ddiweddar, ail gychwynwyd y Gymdeithas Ddrama yng nghapel Heol y Crwys gyda chynhyrchiad George Owen o Mixed Doubles (Para Cymysg) - rhaglen a ddyfeisiwyd yn wreiddiol gan Anton Rodgers. Bu'r cwmni yn cystadlu yng Ngwyl Ddrama Eisteddfod Pontrhydfendigaid ac, allan o ddau ar bymtheg o gwmniau, llwyddodd y cwmni hwn gipio'r bedwaredd wobr.
Bu canmoliaeth arbennig gan y beirniad i gysondeb safon y chwe actor a bu pob un ohonynt ar y rhestr fer am y gwobrwyon i actor neu actores gorau'r Ŵyl. Yr oedd hyn yn ei hun yn dipyn o gamp.

Ond, ar wahan i'r actio, yr oedd llwyddiant y cynhyrchiad yn dibynnu hefyd ar y dewis doeth iawn o dair o'r wyth drama yn y rhaglen wreiddiol. Deialogau ar y thema o briodas a gafwyd yn y dair drama. Yn y gyntaf, Cyfaill Gorau Dyn (James Saunders), pâr ifanc yn dechrau allan ar eu mis mêl a geir. Llwyddodd Bronwen Cook a Huw Thomas gyfleu hiwmor y sefyllfa, y nerfusrwydd a'r ansicrwydd - ac ar yr un pryd ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa drwy awgrymu'r diniweidrwydd hwnnw sy'n tynnu pobl at gariadon ifainc.
Yn yr ail ddrama Norma (Alun Owen), gwraig yn dewis rhwng ei gwr a'i chariad a geir, a chfwyd actio sensitif dros ben gan Non Davies a Bob Roberts. Tasg anodd i actorion yw ymdrin â sefyllfa ddifrifol gydag ysgafnder
Yn y drydedd ddrama, Gorffwysfa (David Compton), pâr priod mewn tipyn o oedran a bortreadir. Yn y ddrama hon eto, drwy ysgafnder a doniolwch y tanlinellir difrifoldeb y sefyllfa. Cymryd hoe mewn mynwent ar y ffordd adref o fod yn siopa y mae'r ddau. Y mae'r ddrama'n drwm gan symbolaeth - y beddau a'r gloch sy'n darogan cau porth y fynwent. Rhannau anodd iawn i'w chwarae sydd yma hefyd ond llwyddodd Myfanwy Jarman i gyfleu anfodlonrwydd a hefyd lawenydd ysbeidiol hen wraig na fu bob amser yn esmwyth ei byd; fel y llwyddodd Alun Rowlands yntau i gyfleu mor gynnil a chelfydd mai dim ond drwy ganolbwyntio ar fanylion bach dibwys ac arwynebol bywyd (fel cipers i dêl) y gellir dygymod â'r ffaith arswydus, ddi-droi'n ôl fod Angau'n llechu jest rownd y cornel.

Rhaid llongyfarch George a Nest Owen ar y cyfieithu - Llongyfarchiadau hefyd i weddill y tîm - Lloyd Evans a Rol Williams a fu'n gyfrifol am y set, Robin Griffith a fu'n gyfrifol am yr effeithiau sain; Sian Llewelyn a fu'n cadw trefn ar bawb a Nellie Williams a ofalodd bod sgript ar gael mewn pryd, er bod y rhybudd yn fyr.

Ray Evans

## 10 mil o Gornets

Un o orchmynion Rhydwen Williams yn ei gerdd groeso i Eisteddfod Merthyr oedd ......

"O gyrion eitha'r Gogledd
Gorllewin, Dwyrain, De ...
Dowch yn llu a dowch yn llon ..."

Mae'n amlwg nad oes clustiau byddar gan y rhan fwyaf o'r Eisteddfodwyr pybyr, mi ddaethant yn llu ac mae aelodau Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd, Caerdydd, yn sicr yn llon.

Daethant yn heidiau i Gastell Cyfarthfa a phrynu deng mil o gornets o hufen iâ. Gallaf glywed y cwestiwn "pa ots?", dwn i ddim faint ohonoch a sylweddolodd fod y Pwyllgor wedi ymgymryd â'r gwaith o werthu'r hufen iâ. Wrth gwrs, roedd y fenter yn llawn siawns gan fod cymaint yn dibynnu ar y tywydd ond mae'n amlwg fod "seintiau'r oesau gynt" yn gofalu amdanon a hawdd oedd gwerthu'r litrau y diwrnodau cyntaf.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gwmni Thayers a fu'n dra cymwynasgar a diffwdan yn enwedig gan i ni werthu'r "Super-teds" i gyd erbyn prynhawn Mawrth. Danfonwyd brys neges am fwy ac ni allai Super-ted ei hun fod wedi cyrraedd lawer ynghynt na'r cyflenwad ychwanegol.

Wrth gwrs, roedd angen gwerthwyr ar y stondinau a rhaid diolch i blant ysgolion Glantâf, Llanhari, Rhydfelen a Chwm Rhymni am weithio'n ddiwyd. Bu rhai ohonynt yn ffodus i gael eu llun yn yr Echo yn bwyta "Waffl yr Urdd", sef cone fawr yn cynnwys y tri math o hufen iâ a gynrychiolai liwiau bythgofiadwy'r Urdd, sef coch (mefus), gwyrdd (mintys a siocled) a gwyn (fanila).

Trwy'r pwt yma gallwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor a fu'n mynychu'r Eisteddfod drwy'r wythnos, sawl un ohonynt yn cael gwyliau o'r gwaith ac eraill yn ceisio bod mewn dau le yr un pryd.

Bu cymaint o sôn ar y cyfryngau am Ferthyr fel ardal Seisnigaidd a gresyn fod cymaint o Gymry Cymraeg wedi cymryd yn ganiataol na fedrem siarad iaith swyddogol y Mudiad a defnyddio iaith estron gyntaf. Mae gwir ddyletswydd arnom hybu'r iaith a cheisio dwyn mwy i'r nyth, felly os na wnawn ni ddechrau, pa obaith sydd i'r Eisteddfod a'r Mudiad gael dylanwad ar yr ardal hon?

Diwedd y gân yw'r geiniog ac mae'n bleser dweud fod y gwaith caled wedi dwyn elw teilwng. Roedd cytundeb ar waith i rannu'r elw'n gyfartal rhwng y ganolfan a'r Eisteddfod, a chan y bydd y ganolfan fil o bunnoedd yn gyfoethocach mae'n siwr y bydd yr Eisteddfod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a ddaw iddynt hwythau hefyd.

Gaenor Mai Jones.
Ar ran Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd, Caerdydd.

**LLYTHYR O'R EIDAL**

**- Euryn Ogwen**

Roedd hi'n dechrau pigo glaw tarannau yn barod a doedd dim amheuaeth yn ol golwg Llyn Maggiore fod 'na glamp o storm ar ei ffordd. Felly, yng ngeiriau'r gan, 'Ar brynhawn dydd Sadwrn glawog, minnau f'hun heb ddim i'w wneud', dyma droi i mewn i siop barbwr am doriad sbesial Eidalaidd reit ar ddechrau'r arhosiad.

Roedd gan Giovanni tua run faint o Saesneg ag a oedd gen i o Eidaleg; nesa peth i ddim. Ond roedd o'n greadur siaradus a doedd rhyw fân broblem felly ddim am atal llif ei ddoethineb na'i gwestiynau i mi. Mi wyddwn fod rheswm dros ymlafnio am bum mlynedd ar yr iaith Ladin yn Ysgol Alun, Yr Wyddgrug ers talwm. Crafu Lefel 'O' ar yr ail gynnig ond roedd digon o waddol ar ol i gadw rhyw fath o sgwrs gyda'r barbwr o Arona ar brynhawn dydd Sadwrn glawog.

O holl genhedloedd Môr y Canoldir, yr Eidalwyr fydda i'n eu hoffi fwyaf. Nhw yn anad yr un genedl arall sydd mewn cytgord a'u hamgylchfyd. Nid byd natur yn unig ond cyfanfyd cyfoes sy'n cynnwys holl ddatblygiadau technolegol y ganrif hon. Wrth edrych ar ges Giovanni y barbwr neu eistedd mewn caffi yn gwrando swn y peiriant coffi, mae rhywun yn ymwybodol o steil. A steil, yn y bôn, ydi dyn mewn cytgord a'i amgylchfyd.

Rhywsut neu'i gilydd, mae sgwrs Giovanni a minnau yn troi at etholiad. Dydd Iau oedd ein hetholiad ni ac yfory (hynny yw y Sul ar ôl y Sadwrn glawog) yw dydd etholiad yr Eidal. Drwy wneud arwyddion tra awgrymog llwyddodd y barbwr i fynd a'r drafodaeth at un o ymgeiswyr y Blaid Radical - Ilona Staller. Hi yw Cicciolina (yn llythrennol, Sweatie Pie) ymgeisydd dros hawliau'r diwydiant pornograffi a'r merched oedd yn ennill eu bywoliaeth drwy dynnu eu dillad. Pan ddaeth canlyniadau'r etholiad yn ystod nos Lun, mae'n amlwg fod fy niffyg Eidaleg a diffyg deall natur yr Eidalwr wedi rhoi camargraff llwyr imi o siawns Ilona i gyrraedd y Senedd. Credais i Giovanni awgrymu mai jôc oedd ei hymgais i ddod yn Aelod Seneddol. Nid jôc oedd yr 11,432 o bleidleisiau a'i rhoddodd yn y senedd. Nid jôc oedd yr holl beth yn ol un diplomat o'r Unol Daleithiau a welodd hyn fel arwydd o fychanu democratiaeth. "A chwithau wedi ethol actor sâl yn Arlywydd ddwywaith" oedd ymateb Iloma. Falle nad yw hi'n gymaint o jôc wedi'r cyfan.

Ond i ddychwelyd at y syniad o gytgord rhwng dyn a'i amgylchfyd. Roedd tair ar hugain o bleidiau yn ymgyrchu yn yr etholiad ond o gofio mai casgliad diweddar o freniniaethau bychan yw'r genedl, efallai mai dyna'r ffordd iawn iddyn nhw gael canlyniad call. Mae yna naw ar hugain o sianeli teledu yma hefyd. Yn wir, does na ddim yn rhwystro unrhyw un sydd a'r arian a'r awydd i agor ei sianel ei hun. O'r siop gornel i'r papur bro mae'r hawl ar gael oherwydd fod y dechnoleg wedi creu'r posibiliadau ac fe ŵyr yr Eidalwyr sut i droi technoleg i'w melin eu hunain. Yn anffodus, nid yw'r penrhyddid hwn wedi rhoi gwell gwasanaeth a'r un hen raglenni Americanaidd sydd i'w gweld fel frech goch ar hyd y lle.

Gorffennodd y barbwr ei waith a thelais iddo, ysgwyd llaw a cherdded i'r stryd. A dyna sŵn yr Eidal - ceir a'u cyrn, sgwters bach yn mewian a phawb yn siarad ar dop eu lleisiau wrth grwydro'r palmentydd. Dyma'r amgylchfyd mae nhw mewn cytgord ag o. Ysgwn i sut oedden nhw'n gwneud swn cyn iddyn nhw ddechrau gyrru ceir?

## Penarth a Dinas Powys

Daw holl weithgareddau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys i ben am y Tymor ar Orffennaf 4, gyda'r Bar-a-Chyw blynyddol a gynhelir yng Ngerddi'r Rheithordy a Neuadd Sant Pedr am 7.30. Croeso cynnes i chi ddinasyddion - beth am ymuno a ni ar noson braf o Haf - gobeithio!! Mae'r Pwyllgor newydd wedi bwrw ati'n barod i drefnu Rhaglen amrywiol a diddorol erbyn y tymor nesaf. Os am fanylion pellach am y Rhaglen neu am Noson Bar-a-Chyw, ffoniwch Peter Davies - y Cadeirydd - 531252, neu Moyra Owen - Ysgrifenyddes - 701877.

Llongyfarchiadau i Catrin Jones ar ennill Ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Cymru yn Abertawe, ac i Julie Jones ar ennill gwobr am ganu'r Corn Ffrengig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil. Braf yw clywed am lwyddiant yr ifanc yn ein plith - hei lwc yn y dyfodol.

Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Janet Williams ac i Jane Bassett. Bu'r ddwy yn Ysbyty Llandochau yn derbyn llawdriniaeth, ond mae'n dda i glywed fod y ddwy yn gwella erbyn hyn.

Cymorth Cristnogol

Bu Chwiorydd Bethel, Penarth yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwneud 43 o "Capulanas" i wragedd Mozambique. Trwy lwc bu gwraig o'r wlad honno ym Methel mewn oedfa Bore Sul ac fe ddangosodd i'r gynulleidfa sut i wisgo'r "capulanas". Sut ar wyneb daear y daeth gwraig o Mozambique i Fethel? Y ddolen gyswllt oedd Mrs. Davies, mam Eirlys ac Elin. Fe ddaeth ar draws yr ymwelydd yn Hostel y Brifysgol ym Mhenarth a gofynnodd iddi am hanes y "capulanas". Gwell fyth cafodd gwragedd Bethel y pleser o weld eu gwaith wedi'u gwisgo gan frodor o Fozambique. Derbyniodd Mrs. Moyra Owen lythyr hyfryd o ddiolch am y gwaith a gyflawnwyd, gan Wynn Vittle, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymorth Cristnogol.


celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSODDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.



Hunangyflogedig?
Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

BUDDSODDIADAU
YSWIRIANT BYWYD
PENSIYNAU

## CYFNEWID ARTISTIAID CYMRU AC IWERDDON

Bydd artist o Gymru yn treulio tri mis yn ystod yr hâf eleni yn gweithio yn Iwerddon fel rhan o Gyfnewid arbennig rhwng Cymru ac Iwerddon. Bydd gan Peter Prendergast, yr artist sy'n gweithio o Fethesda, stiwdio yn yr hen ficerdy ar dir Eglwys Gadeirio San Finbar, Cork.

Trefnir y cyfnewid ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Iwerddon mewn ymgais i annog rhagor o gyfnewid gwybodaeth ac ymarfer rhwng artistiaid y ddwy gymuned. Mae ymweliad Peter Prendergast ag Iwerddon yn dilyn ymweliad â Chymru y llynedd gan beintiwr o Ddulyn.

I Peter Prendergast bydd y tirwedd mwyn o gwmpas Cork ac awyrgylch y Ddinas yn hollol wahanol i dirwedd Eryri. Meddai "Rwy'n edrych ymlaen yn arbennig at weithio mewn dinas ac mewn tirwedd hollol wahanol. Gan mai Cymraeg yw fy mam a Gwyddel yw fy nhad, rwy'n gyfarwydd iawn a'r ddwy wlad, ond hwn fydd y cyfle cyntaf i mi gael gweithio am gyfnod hir a dod i adnabod y lle. Mewn ffordd bydd yn gyfle i mi chwilio am fy ngwreiddiau."

Ganed Peter Prendergast yn Ne Cymru ym 1946 a hyfforddwyd ef yng Ngholeg Celf Caerdydd, Ysgol Gelfyddyd Gain Slade, Llundain a Phrifysgol Reading. Gwelwyd ei waith mewn llawer arddangosfa ac yn ddiweddar yn Oriel Artiste, Caerfaddon. Mae ei waith mewn nifer o gasgliadau, ac yn ddiweddar prynwyd darn gan Oriel Genedlaethol Czechoslovakia. Bu'n ddarlithydd rhan-amser mewn arlunio a pheintio yng Ngholeg Technegol Gwynedd, Bangor ers saith mlynedd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Alison Scott
Cyngor Celfyddydau Cymru
9 Stryd yr Amgueddfa
CAERDYDD
CF1 3NX

Ffôn: 0222 394711 Est. 145

---

MUDIAD CENEDLAETHOL MERCHED Y WAWR

GWAHODDIR CEISIADAU AM Y SWYDD
SWYDDOG DATBLYGU (RHAN AMSER)

I weithio yn Rhanbarth De a Chanol Morgannwg a Gwent.

Am ragor o fanylion cysyllter â'r Trefnydd Cenedlaethol.

Ceisiadau drwy lythyr erbyn 18 Gorffennaf, 1987, i'r Trefnydd Cenedlaethol:

Mererid James
Penlan-Merwyn
Aberporth
Aberteifi
Dyfed
SA43 2DT

Ffôn: 0239/810999

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? Dyma hi yn ganol ha' - wel yn ôl y calendr beth bynnag!!

Tydi Hywel Gwynfryn ddim yn licio'r haf cweit cystal a'r gaeaf - mae o'n dweud ei bod yn gyfnod anghymdeithasol o'r flwyddyn gan fod pawb ar chwal ag yn diflannu ar wyliau.

Mae John Bifan ar y llaw arall yn dotio ar y rhan yma a'r flwyddyn - cyfnod plannu allan, y tyfu a'r bywiogi a cyfnod lle mae rhywun yn gweld ffrwyth llafur ddechrau'r gwanwyn debyg.

I mi mae'n gyfnod o ruthr braf - i.e. Sioe'r Anifeiliaid yn Stonleigh a Llanelwedd yn binacl i mi yn bersonol, a bydd mi fydd yn braf cael ymweld a'r Brifwyl yn Port. Ond mae'n gyfnod prysurach fyth yn y gegin - pwcedi o siampaen blodau'r ysgaw ar lawr y gegin, bagiau plastig o riwbob yn prysur droi yn giwbiau o riwbob mewn bagiau plastig llai neu stwnsh i'w gymynysgu rywbryd eto yn lenwad i daten neu grwnsh - dwi'n meddwl bydd yna beth riwbob o Lanuwchllyn yn cael ei botelu. Mi fydd yna fynd eto fyth ar Rumptopf ffrwythau coch bid siwr (gweler ôl-rifynnau o'r Dinesydd am risetiau)!!

O bryd I'w gilydd mi ddaw yna ambell brofiad newydd ynghanol ha a'r cyfarfod hefo pedair merch o Tcheina fu hynny eleni. Anodd iawn oedd dweud beth oedd oedran y bedair fu yng ngwledydd Prydain am dair wythnos dan adain Comisiwn Cenedlaethol y Merched. Roeddan nhw'n gwisgo dillad debyg i'w gilydd - sgert, blows, wasgod a siaced - heb lawer o son am liw na 'jingilarins'. Mi roedd tair ohonyn nhw yn dal swyddi reit uchel ag yn gyfrifol am goleg neu adran mewn ffatri. Y bedwaredd - mi roedd hi yn iau na'r gweddill a hi oedd yn cyfieithu i'r lleill - ag wedi dod dan ddylanwad yr Unol Daleithiau yn ôl ei hacen a'i gwisg.
Mi gyfarfyddais i a nhw yng Nghaerfyrddin ar eu diwrnod ola yma yng Nghymru - a jest cyn iddyn nhw ddal y tren am Lundain a'r awyren yn ôl i Tcheina. Fe fuon ni (criw o ferched yn cynrychioli bywyd cyhoeddus a threfol Caerfyrddin a Dyfed) yn sgwrsio trwy gyfrwng y cyfieithydd am bob math o bethau merched a chanfod bod rhan fwyaf o ferched Tcheina yn gweithio ag mai nhw ydi 'prif weithredwyr' y cartref.

Gan eu bod nhw wedi ymweld a 3 o wledydd Prydain mo roeddwn i yn llawn chwilfrydedd i wybod beth oedd eu barn nhw amdanom ni Gymry - a chan gydio yn fy mraich meddai Madam Wang - "Mi rydach chi yn bobl addfwyn a charedig" - a dyna'n drwg ni efallai?

Gwyliau da i chi i gyd - tan tro nesa Hwyl!

---

CYNGERDD MAWREDDOG

CANOLFAN HAMDDEN CAERFFILI

GORFFENNAF 10FED
AM 7 YR HWYR

Er mwyn dathlu chwarter canmlwyddiant Ysgol Ifor Bach Senghennydd fel Ysgol Gymraeg.

RHIANNEDD CWM RHYMNI
CÔR MEIBION ABER VALLEY
Unawdydd JASON SHUTE

A

PHLANT YR YSGOL

MYNEDIAD: £2
Pensiynwyr a phlant: £1

Ffôniwch 830375 (yr ysgol) am docynnau

---

GORFFENNAF 11 am 1 o'r gloch
FFAIR HAF YSGOL MELIN GRUFFYDD
DEWCH YN LLU!


---

## John McIntyre

John Mcintyre, enw, mae'n debyg nad yw'n gyfrwydd i chwi ddarllenwyr Y Dinesydd, ond efallai yn golygu rywbeth i'r rhai ohonoch chi sy'n mynychu cyngherddau Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC.

Tan fis Tachwedd diwethaf, John oedd chwaraewr Côr Anglais y Gerddorfa. Bu farw'n ddisymwth, yn 27 oed o gancr. Bu'n golled frawychus i'w deulu ac i ninnau ei ffrindiau yn y Gerddorfa. O barch i'w goffadwriaeth trefnodd aelodau'r Gerddorfa gyngerdd yn Neuadd Dewi Sant ar Orffennaf y 4ydd. Noson o gerddoriaeth Americanaidd, o gofio'r dyddiad, gyda'r Gerddorfa, yr Arweinydd Howard Williams, a'r Unawdwyr Peter Donohoe a Dennis O'Neill i gyd yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.
Nôd y noson oedd codi pres i Tenovus. Nid yw'n rhy hwyr i neb gyfrannu at Gronfa Goffa John Mcintyre Tenovus Caerdydd.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn    RHIF 73



**Ar Draws:**

1. Byddaf yn agor pan fyddaf yn dod ataf fy hun yn iawn (7)
6. Dod yn un o'r cast (4,3)
9. Hyn a hyn (7,1,7)
10. Byddai yn cysylltu yn sownd (5)
11. Yr iau, o bosib, a welir mewn capeli ysblennydd (5,4)
12. Da yw teml i godi naws emosiynol (9)
14. Diwygio llaw e.g. a chael adferiad (5)
15. Ffrwythau o'r afon? (5)
16. Gellir cymhwyso geiriau Salm CXV. 6. i ddisgrifio cyflwr y cyfryw rai (9)
18. Un felly yw'r llwynog (a'r wiwer) (9)
21. Llithio (5)
22. Nid oes bargeinion i'w cael yn ol y drefn hon (1,7,7)
23. "------- ti mae son, Wenaf Wen, Wenaf Wen" (7)
24. Gwnaed llun (7)

**I Lawr:**

1. Hen offeryn llinynnol (7)
2. Tafell frysiog, dyweder (6,1,4,4)
3. Onid i Elen y dylid cyflwyno'r lle hwn yn Sir Gaernarfon? (9)
4. Bwrw coelbren (5)
5. "Hei, Mistar Urdd, Yn dy wyn,--- - ------" (3,1,5)
6. Can o fawl yn cynnwys cytsain i'r Almaenwyr (5)
7. Ychwanegu at y loes (3,5,2,1,4)
8. Caredigrwydd (5,2)
13. Byddent yn pwyso (9)
14. "Safwn yn y bwlch" (9)
15. Mae hi'n tywallt (7)
17. Braidd yn amharod at waith (7)
19. Yn mynd ar goll o Ynys Mon, ac wrth grwydro, yn siarad ag ef ei hun (5)
20. Blew coch, melyn a du sydd i gyd yn troi yn wyn (5)

**DATRYSIAD RHIF 72**

**Ar Draws:** 1. GATIAU; 4. STRANC; 9. WEDI MYND I'R GWELLT; 10. YSGOGI; 11. ARIANGAR; 12. AMHARCHUS; 14. DEBORA; 15. STREIC; 18. YSGOLION; 21. CREDADWY; 22. EHANGIR; 24. UN-AR-DDEG-AR-HUGAIN; 25. GWNEIR; 26. EDIFAR;

**I Lawr:** 1. GWELSOM; 2. TRIGO; 3. AWYR IACH; 5. TARDDIAD; 6. ARWYNEBOL; 7. CELLWAIR; 8. ADLAIS; 13. ABERDARON; 16. TARANOG; 17. CYDOESI; 18. YN Y MAN; 19. GWELLHAD; 20. ODDIEITHR; 23. ATGOF

**CYSTADLEUAETH RHIF 72**

Daeth chwech ymgais i law, a phob un ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd oedd Hefin Tomos, 16 Llys Teilo Sant, Y Rhâth, ac fe fydd y tocyn llyfr am £5 ar ei ffordd iddo gyda hyn. Y datryswyr llwyddiannus eraill oedd: Elinor Wyn, Ystum Taf; Rhian James, Yr Eglwys Newydd; Marged Davies, Llandaf; Gwenllian Prys Jones, Yr Eglwys Newydd a B.H., Cyncoed.

**ADRAN YR URDD, DINAS POWYS**

Y mae angen ar gyfer mis Medi 1987 Arweinyddion (di-dâl) i Gangen gref o dros 60 o blant rhwng 8 a 14 oed, y rhan fwyaf ohonynt o gartrefi di-Gymraeg Dinas Powys, Penarth a Sully.

Mae'r Adran wedi ei rhannu'n ddwy - Oedran 8 - 11 ac Oedran 11 - 14.

Bu'r adrannau yn cwrdd ar nos Wener, 6.15 i 7.30 p.m. a 7.30 - 9.00 p.m., ond gellir newid y trefniadau. Bu'r Arweinyddion presennol wrth y llyw ers 8 mlynedd ac yn teimlo eu bod yn mynd yn rhy hen!

Os oes gennych ddiddordeb, cysyllter naill ai :

Eleanor Elias Jones (512405)
neu
Janie Jones (512986

'STEDDFOD BRO MADOG

Safle i Garafannau a Thenti, 4 milltir o Borthmadog, ar lan afon Dwyfor yng Nghwmpennant. Adloniant ym muarth y Fferm gyda'r nos.

Mrs. A. Evans
Dolwgan Isa'
Dolbenmaen

Ffôn: Garn Dolbenmaen 639

Gwersi piano, theorie a phîb

Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath

Ffôn: 488399

Cysylltwch o fis Awst ymlaen

Rydym yn chwilio am berson cymwys i arwain gweithgareddau'r Clwb sy'n darparu ar gyfer plant:

(i) 5-8 oed; (ii) 8-11 oed; (iii) 11+ oed.

Cynigir tal i fyny at £50 yr wythnos am arwain y tri grŵp.

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Basil Davies
(Cadeirydd Clwb yr Eos)
4 Greenbanks Drive
Y Barri
CF6 8DL

**YN EISIAU**

**GWRAIG DDWYWAITH YR WYTHNOS I LANHAU MEWN CARTREF CYMRAEG YN NINAS POWYS**

**Am fanylion pellach galwer: CAERDYDD 512508**